Dengys Tabl 7 nifer y cofrestriadau TGAU ar gyfer pob pwnc yn ôl rhywedd yn 2018/19, yn ogystal â chyfran ganrannol y cofrestriadau ym mhob pwnc a oedd yn fechgyn a merched. Defnyddiwyd y grwpiau pwnc a ddiffinnir yn Nhabl 6 i grynhoi'r data.

Mae'r data'n dangos cyfran eithaf cyfartal o gofrestradau TGAU yn ôl rhywedd mewn Pynciau academaidd STEM; Pynciau galwedigaethol STEM a Phynciau academaidd eraill. Fodd bynnag, roedd 57 y cant o gofrestradau ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol yn gofrestradau gan fechgyn yn 2018/19, tra bod 93 y cant o'r cofrestriadau mewn pynciau galwedigaethol eraill yn rhai gan ferched.

Tabl 7. Nifer a chanran cyfran y cofrestrïadau TGAU ar gyfer 2018/19 yn ôl rhywedd

Pynciau a grwpiau pwnc		Nifer y cofrestrïadau		Cyfran ganrannol yr holl gofrestrïadau	
		Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
Pob Pwnc		139348	142771	49%	51%
STEM Academaidd	Gwyddorau Biolegol	3460	3600	49%	51%
	Cemeg	3433	3578	49%	51%
	Ffiseg	3361	3435	49%	51%
	Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	20094	19650	51%	49%
	Gwyddoniaeth Gymhwysol	413	300	58%	42%
	Gwyddoniaeth Arall	25	7	78%	22%
	Dylunio a Thechnoleg*	3377	1469	70%	30%
	TGCh	5293	2165	71%	29%
	Economeg y Cartref	709	2882	20%	80%
	Mathemateg	15562	14930	51%	49%
	Mathemateg - Rhifedd	15292	14748	51%	49%
	STEM Cyfanswm academaidd	71019	66764	52%	48%
Gwyddorau Cymdeithasol	Astudiaethau Busnes	1769	1133	61%	39%
	Daearyddiaeth	3992	3169	56%	44%
	Dyniaethau	41	54	43%	57%
	Astudiaethau Cymdeithasol	13	36	27%	73%
	Busnes Cymhwysol (CG)	26	23	53%	47%
	Cyfanswm y Gwyddorau Cymdeithasol	5841	4415	57%	43%
Pynciau Academaidd Eraill	Hanes	4208	5189	45%	55%
	Celf a Dylunio	2605	5901	31%	69%
	Astudiaethau Clasurol	8	3	73%	27%
	Astudiaethau Cyfathrebu	718	719	50%	50%
	Drama	804	1425	36%	64%
	Saesneg Iaith	15348	14850	51%	49%
	Llenyddiaeth Saesneg	11813	12651	48%	52%
	Ffrangeg	1007	1937	34%	66%
	Almaeneg	237	324	42%	58%
	Sbaeneg	434	885	33%	67%
	Ieithoedd Tramor Modern Eraill	152	152	50%	50%
	Cerddoriaeth	849	1268	40%	60%
	Addysg Gorfforol	4031	2546	61%	39%
	Astudiaethau Crefyddol	4365	5833	43%	57%
	Cymraeg	2615	2770	49%	51%
	Llenyddiaeth Gymraeg	1613	2052	44%	56%
Cymraeg Ail Iaith	10002	10268	49%	51%	
Cyfanswm Academaidd arall	60811	68773	47%	53%	
STEM Galwedigaethol	Gwyddoniaeth Gymhwysol (CG)	1560	1266	55%	45%
	Cyfanswm pynciau galwedigaethol STEM	1560	1266	55%	45%
Pynciau Galwedigaethol Eraill	Iechyd a Gofal Cymdeithasol (CG)	62	1442	4%	96%
	Lletygarwch ac Arlwyyo (CG)	30	62	33%	67%
	Hamdden a Thwristiaeth (VQ)	23	20	53%	47%
	Y Celfyddydau Perfformio (CG)	2	29	6%	94%
	Cyfanswm y Pynciau Galwedigaethol Eraill	117	1553	7%	93%

*Cyfeirir at Dylunio a Thechnoleg fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg yn ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru.

Testun gwyrdd - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestrïadau yn rhai gan ferched.

Testun oren - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestrïadau yn rhai gan fechgyn.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

Mae newid ym methodoleg casglu data Llywodraeth Cymru yn 2016/17 yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi tueddiadau data cofrestrïadau TGAU.⁶ Er ei bod yn bosibl cymharu tueddiadau yn ôl rhyw dros amser, gall ffactorau fel newidiadau yn y cyrsiau sydd ar gael ac a gynigir gan ysgolion effeithio ar gymariaethau o bynciau unigol neu grwpiau o bynciau.

Gostyngodd nifer cyffredinol y cofrestrïadau TGAU ar draws pob pwnc 8.5 y cant ymhlith merched a 5.5 y cant ymhlith bechgyn rhwng 2008/09 a 2018/19. Mewn rhai pynciau, roedd y newid canrannol yn nifer y cofrestrïadau TGAU yn nodedig o wahanol rhwng bechgyn a merched. Ffigur 10 fod y cynnydd canrannol yn nifer y cofrestrïadau TGAU mewn pynciau Gwyddoniaeth craidd yn uwch ymhlith merched na bechgyn. Mae'r set ddata lawn wedi'i chynnwys yn Nhabl 29 yn Atodiad 1.

Ffigur 10. Pynciau lle roedd gwahaniaeth sylweddol yn y newidiadau yn nifer y cofrestrïadau ar gyfer TGAU ymhlith merched a bechgyn 2008/09 i 2018/19*

Roedd canran y <u>cynnydd</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol uwch ymhlith merched	Roedd canran y <u>cynnydd</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol uwch ymhlith bechgyn
Gwyddorau Biolegol Cemeg Ffiseg	Cymraeg Ail Iaith
Roedd canran y <u>gostyngiad</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol is ymhlith merched	Roedd canran y <u>gostyngiad</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol is ymhlith bechgyn
Economeg y Cartref Hanes Celf a Dylunio Cerddoriaeth Astudiaethau Crefyddol	TGCh Astudiaethau Busnes

*Diffinnir gwahaniaeth sylweddol fel gwahaniaeth o dros ddeg pwynt canran rhwng bechgyn a merched.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Adlewyrchir y cynnydd canrannol uwch yn nifer y merched sy'n cofrestru ar gyfer TGAU mewn pynciau Gwyddoniaeth craidd yn y gyfran ganrannol o gofrestrïadau gan ferched a bechgyn. Gellir gweld hyn yn Tabl 8, sydd hefyd yn dangos y canlynol:

⁶ Mae'r data ar gyfer 2008/9 i 2015/16 ar gyfer pobl ifanc 15 oed. Mae'r data ar gyfer 2016/17 ymlaen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.

- Mae mwy o ferched na bechgyn bellach yn cofrestru ar gyfer pob un o'r pynciau Gwyddoniaeth craidd TGAU;
 - Gwyddorau Biolegol (51.0 y cant o ferched yn 2018/19);
 - Cemeg (51.0 y cant o ferched yn 2018/19);
 - Ffiseg (50.5 y cant o ferched yn 2018/19);
- Roedd dros dri chwarter y cofrestriadau ar gyfer Gwyddorau Eraill yn fechgyn ym mhob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2018/19;
- Roedd tua dwy ran o dair o'r cofrestriadau Dylunio a Thechnoleg yn rhai gan fechgyn ym mhob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2018/19;
- Mae cyfran ganrannol y ceisiadau TGCh gan fechgyn wedi cynyddu o 59.4 y cant yn 2012/13 i 71.0 y cant yn 2018/19.

Tabl 8. Cyfran ganrannol yn ôl rhywedd o nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU mewn pynciau academaidd STEM 2012/13 - 2018/19

Pwnc	2012/13		2013/14		2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19	
	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
Pob Pwnc	132830	138951	126038	132831	121920	129710	118970	125722	134660	139145	134763	137773	139348	142771
Gwyddorau Biolegol	52.2%	47.8%	51.3%	48.7%	51.8%	48.2%	51.5%	48.5%	50.3%	49.7%	48.9%	51.1%	49.0%	51.0%
Cemeg	52.8%	47.2%	51.5%	48.5%	52.6%	47.4%	51.4%	48.6%	50.3%	49.7%	48.7%	51.3%	49.0%	51.0%
Ffiseg	53.4%	46.6%	51.9%	48.1%	52.6%	47.4%	52.0%	48.0%	50.9%	49.1%	49.3%	50.7%	49.5%	50.5%
Gwyddoniaeth Sengl	50.0%	50.0%	49.4%	50.6%	48.6%	51.4%	49.2%	50.8%	50.4%	49.6%	-	-	-	-
Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	51.1%	48.9%	50.6%	49.4%
Gwyddoniaeth Gymhwysol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	61.9%	38.1%	57.9%	42.1%
Gwyddoniaeth Ychwanegol	49.1%	50.9%	48.7%	51.3%	47.8%	52.2%	48.0%	52.0%	49.6%	50.4%	-	-	-	-
Gwyddorau Eraill	77.9%	22.1%	81.8%	18.2%	80.3%	19.7%	84.8%	15.2%	86.6%	13.4%	84.2%	15.8%	78.1%	21.9%
Dylunio a Thechnoleg	66.0%	34.0%	67.5%	32.5%	66.2%	15.8%	66.4%	33.6%	67.1%	32.9%	71.0%	29.0%	69.7%	30.3%
TGCh	59.4%	40.6%	60.7%	39.3%	65.7%	34.3%	66.4%	33.6%	69.8%	30.2%	70.2%	29.8%	71.0%	29.0%
Economeg y Cartref	7.7%	92.3%	7.4%	92.6%	9.2%	90.8%	8.5%	91.5%	7.9%	92.1%	18.6%	81.4%	19.7%	80.3%
Mathemateg	50.8%	49.2%	50.8%	49.2%	50.7%	49.3%	51.0%	49.0%	51.1%	48.9%	51.2%	48.8%	51.0%	49.0%
Mathemateg - Rhifedd	-	-	-	-	-	-	-	-	51.0%	49.0%	51.2%	48.8%	50.9%	49.1%

*Cyfeirir at Dylunio a Thechnoleg fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru.

Testun gwyrdd - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestriadau yn rhai gan ferched. **Testun oren** - yn dynodi bod mwy na 55% o'r ceisiadau gan fechgyn.


Ni ddangoswyd data ar gyfer blynyddoedd cyn 2012/13 am resymau'n ymwneud â'r cyflwyniad.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

Drwy gydgrynhoi nifer y cofrestriadau yn ôl pwnc unigol i'r grwpiau a ddiffinnir yn Tabl 6, mae'n bosibl archwilio tueddiadau dros amser yn y grwpiau hyn. Ffigur 11 nifer y cofrestriadau TGAU ar gyfer pynciau academaidd STEM, pynciau gwyddorau cymdeithasol a phynciau academaidd eraill yn ôl rhywedd rhwng 2008/09 a 2018/19, tra bod Ffigur 12 yn dangos yr un data ar gyfer STEM a chyrtsiau galwedigaethol eraill. Mae'r data'n dangos y canlynol:

- Mewn pynciau academaidd STEM, mae canran y cofrestriadau wedi cynyddu 7.3 y cant ymhlith merched a 10.9 y cant ymhlith bechgyn dros yr un cyfnod.
 - Mae'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau mewn pynciau academaidd STEM wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn nifer y cofrestriadau mewn pynciau Gwyddoniaeth dros y cyfnod hwn.
- Gostyngodd cofrestriadau mewn TGAU Gwyddorau Cymdeithasol, pynciau galwedigaethol STEM a phynciau galwedigaethol eraill yn sylweddol dros y cyfnod hwn, a gostyngodd nifer y cofrestriadau mewn pynciau academaidd eraill hefyd.


Ffigur 11. Nifer y cofrestriadau TGAU ar gyfer pynciau academaidd STEM, pynciau gwyddorau cymdeithasol a phynciau academaidd eraill yn ôl rhywedd 2008/09 - 2018/19 *



*Wedi'u diffinio fel Gwyddorau Biolegol, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Sengl, Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol, Gwyddoniaeth Ychwanegol, Gwyddorau Eraill, Dylunio a Thechnoleg (Crefft, Dylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru), TGCh, Economeg y Cartref, Mathemateg, Mathemateg - Rhifedd.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan contract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Ffigur 12. Nifer y cofrestriadau TGAU ar gyfer pynciau galwedigaethol STEM a phynciau galwedigaethol eraill 2008/09 - 2018/19 *



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan contract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

2.4.2 Cyrhaeddiad mewn TGAU

Ar draws pob pwn, mae canran sylweddol uwch o ferched na bechgyn yn cyflawni graddau TGAU A*-C. Mae hyn hefyd yn wir am y mwyafrif o bynciau academaidd STEM ym mhob blwyddyn er 2008/09, gyda chanran uwch o ferched na bechgyn yn cyflawni graddau A-C* yn y mwyafrif o bynciau academaidd STEM. Yn 2018/19, yr unig eithriadau i hyn oedd Cemeg, Ffiseg, Gwyddorau Eraill a Rhifedd.


Dengys Ffigur 13 nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU mewn pynciau academaidd STEM, ynghyd â'r ganran gyfatebol sy'n cyflawni graddau A*-C yn 2018/19. Dengys Tabl 9 ganran y merched a'r bechgyn sy'n cyflawni pob gradd unigol yn 2018/19. Gwelir o Ffigur 13 a Tabl 9 bod:

- merched wedi perfformio'n well na bechgyn o ran y ganran a gyflawnodd raddau A*, A neu A*-C yn y mwyafrif o bynciau, yn sylweddol felly mewn TGCh, Dylunio a Thechnoleg (DTh) ac Economeg y Cartref;⁷

⁷ Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg)

- nifer y bechgyn a gofrestrodd ar gyfer TGAU TGCh a Dylunio a Thechnoleg yn fwy na dwbl nifer y merched, er bod canran sylweddol uwch o ferched wedi ennill graddau A*-C yn y pynciau hyn;
- canran uwch o ferched na bechgyn wedi cyflawni graddau A* ac A mewn Cemeg, er gwaethaf y ffaith bod canran uwch o fechgyn yn cyflawni A*-C;
- canran sylweddol uwch o fechgyn na merched wedi cyflawni gradd A* mewn Ffiseg.

Ffigur 13. Nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU mewn pynciau academaidd STEM a'r ganran gyfatebol a gyflawnodd raddau A*-C yn 2018/19



Noder: Mae Gwyddoniaeth Gymhwysol a Gwyddorau Eraill wedi'u heithrio o'r uchod oherwydd y niferoedd bach sy'n cofrestru ar gyfer y pynciau hyn.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

Tabl 9. Canran y disgyblion a gyflawnodd bob gradd ar lefel TGAU mewn pynciau academaidd STEM 2018/19

Pwnc	Canran y disgyblion a gyflawnodd bob gradd																		Nifer y cofrestrïadau	
	A*		A		B		C		D		E		B		M		A*-C		B	M
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M		
Economeg y Cartref	0.6	2.1	4.1	9.9	10.4	22.7	22.6	25.9	31.0	19.8	17.1	11.0	9.7	4.8	2.8	2.0	37.7	60.6	709	2882
Dylunio a Thechnoleg*	2.4	7.5	8.9	17.6	19.8	24.4	25.1	22.9	18.5	13.8	11.5	7.4	8.0	3.9	3.6	1.6	56.2	72.4	3377	1469
Ffiseg	24.0	18.3	22.4	21.3	24.4	26.6	21.2	23.8	5.0	6.6	1.2	1.6	1.0	1.1	0.4	0.5	89.3	90.4	3361	3435
Cemeg	18.9	20.0	23.6	24.8	27.8	25.9	20.6	19.5	4.8	5.6	1.9	1.7	1.2	1.1	0.6	0.9	91.0	90.2	3433	3578
Gwyddorau Biolegol	16.1	19.8	22.5	26.1	27.9	25.9	22.8	18.6	6.4	5.6	1.7	1.8	0.8	0.8	0.6	0.6	92.0	90.0	3460	3600
TGCh	3.9	4.8	13.1	20.0	20.9	25.8	24.6	25.4	14.6	12.9	9.6	6.1	6.7	2.5	4.4	1.7	62.5	76.0	5293	2165
Mathemateg - Rhifedd	7.1	5.5	8.9	8.9	17.5	17.5	21.9	22.7	13.0	13.6	13.1	13.9	6.1	5.5	5.7	5.0	55.5	60.4	15292	14748
Mathemateg	8.4	9.1	8.6	9.7	16.2	18.1	22.3	23.5	14.1	13.6	10.6	10.1	6.7	5.1	6.5	5.2	55.4	54.6	15562	14930
Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	2.3	3.0	5.8	7.7	19.5	21.5	28.8	28.0	14.3	14.8	10.3	9.6	8.3	7.4	5.1	4.4	56.4	60.2	20094	19650

Testun gwyrdd - yn dynodi pynciau lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A*, A, B neu C.

Testun oren - yn dynodi pynciau lle mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A*, A, B neu C.

*Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru a gall gynnwys pynciau TGAU fel Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Tecstilau, Technoleg Bwyd, Cynhyrchion Electronig, Cynhyrchion Graffig, Deunyddiau Gwrthiannol, Systemau a Rheoli, Peirianeg, Dylunio Cynnyrch a/neu Astudiaethau Cerbydau Modur

Noder: Mae Gwyddoniaeth Gymhwysol a Gwyddorau Eraill wedi'u heithrio o'r uchod oherwydd y niferoedd bach sy'n cofrestru ar gyfer y pynciau hyn.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu datas dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

2.4.3 Cymharu data TGAU â gwledydd eraill

Mewn gwledydd eraill yn y DU, gellir gweld rhai patrymau tebyg i Gymru yn nifer y cofrestrïadau ar gyfer arholiadau TGAU a National 5 (sy'n cyfateb i arholiadau TGAU yn yr Alban) yn ôl rhywedd. Tabl 10 yn dangos y data mwyaf diweddar sydd ar gael (2019), ac mae'n dangos bod:

- Niferoedd gweddol gyfartal o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyfer **Cemeg a Mathemateg** ym mhob un o'r pedair gwlad, a **Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (nas cynigir yn yr Alban);
- Cyfran sylweddol uwch (65-92 y cant) o'r cofrestrïadau ar gyfer **Cyfrifiadura a TGCh, Dylunio a Thechnoleg, Gwyddorau Eraill a Pheirianeg** yn fechgyn ym mhob un o'r pedair gwlad;

Mae yna hefyd rai gwahaniaethau nodedig rhwng Cymru a'r Alban, yn enwedig y cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran y cofrestrïadau ar gyfer arholiadau TGAU Bioleg a Ffiseg ac arholiadau National 5:

- **Bioleg;**
 - Yng Nghymru, roedd ychydig dros hanner (51 y cant) y cofrestrïadau yn rhai gan ferched, gydag ychydig yn llai na hanner yn rhai gan fechgyn (49 y cant);
 - Yn yr Alban, roedd dwy ran o dair o gofrestrïadau Bioleg National 5 (66 y cant) gan ferched, gyda thraean (34 y cant) gan fechgyn;
- **Ffiseg**
 - Yng Nghymru, roedd ychydig dros hanner (50 y cant) y cofrestrïadau yn rhai gan ferched, a hanner yn rhai gan fechgyn (49 y cant);
 - Yn yr Alban, roedd ychydig dros chwarter (29 y cant) y cofrestrïadau gan ferched, gyda bron i dri chwarter (71 y cant) gan fechgyn.
 - Yng Ngogledd Iwerddon, roedd 60 y cant o'r cofrestrïadau gan fechgyn, a 40 y cant gan ferched.

Tabl 10. Cyfran ganrannol y cofrestrïadau ar gyfer pynciau cymhwyster TGAU neu National 5 yn ôl rhywedd a gwlad y DU

Pwnc neu grŵp (B=Bechgyn, M=Merched)	Cymru		Lloegr		Yr Alban		Gog. Iwerddon		Y DU	
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M
Cyfrifiadura a TGCh	71%	29%	78%	22%	80%	20%	65%	35%	77%	23%
Dylunio a Thechnoleg	71%	29%	70%	30%	74%	26%	70%	30%	70%	30%
Gwyddorau Eraill	89%	11%	77%	23%	-	-	68%	32%	77%	23%
Peirianeg	-	-	89%	11%	90%	10%	92%	8%	90%	10%
Bioleg	49%	51%	50%	50%	34%	66%	46%	54%	50%	50%
Ffiseg	50%	50%	51%	49%	71%	29%	60%	40%	51%	49%
Cemeg	49%	51%	51%	49%	47%	53%	50%	50%	51%	49%
Mathemateg	49%	51%	50%	50%	47%	53%	49%	51%	50%	50%
Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl	51%	49%	50%	50%	-	-	47%	53%	50%	50%
Pob pwnc	49%	51%	50%	50%	49%	51%	49%	51%	50%	50%

Testun gwyrdd - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestrïadau yn rhai gan ferched. **Testun oren** - yn dynodi bod mwy na 55% o'r ceisiadau gan fechgyn.

Noder: Mae Cyfrifiadura a TGCh yn cynnwys Cyfrifiadureg, Cyfrifiadura, neu TGCh. Mae Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys Crefft, Dylunio a Thechnoleg (data Llywodraeth Cymru), Dylunio a Thechnoleg neu Ddylunio a Gweithgynhyrchu. Mae peirianeg yn cynnwys Gwyddoniaeth Peirianeg yn yr Alban.

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau TGAU Dros Dro (Cwrs Llawn) - Mehefin 2019; Awdurdod Cymwysterau'r Alban - Ystadegau Cyrhaeddiad (Awst) 2019

Mae Tabl 11 yn dangos data cyrhaeddiad TGAU mewn pynciau STEM yn ôl gwlad y DU (arholiadau National 5 yn yr Alban). Mae'n dangos canran y merched a'r bechgyn a gofrestrwyd sy'n ennill graddau TGAU A neu'n uwch (Gradd 7 yn Lloegr) a TGAU gradd C neu'n uwch (Gradd 4 yn Lloegr) mewn pynciau STEM TGAU unigol.

Mae'r data'n dangos y canlynol:

- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y mwyafrif o bynciau ar draws y pedair gwlad o ran y ganran sy'n cyflawni graddau A ac A*-C (neu gyfwerth) mewn pynciau STEM TGAU.
 - Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn **Dylunio a Thechnoleg, Bioleg, Cemeg, Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl, Cyfrifiadura a TGCh** ym mhob un o'r pedair gwlad;
- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn **Gwyddorau Eraill** yng Nghymru, ond nid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, lle mae canran uwch o fechgyn yn ennill y graddau A ac C neu'n uwch;
- Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o ran cyflawni gradd A/7 mewn TGAU **Ffiseg**, ond mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- Mae darlun mwy cyfartal i'w weld gyda **Mathemateg**, lle ceir gwahaniaethau gweddol fach mewn cyrhaeddiad yn ôl rhywedd.

Tabl 11. Canran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd raddau 7/A neu uwch a 4/C neu uwch mewn arholiadau TGAU a National 5 yn ôl pwnc a gwlad y DU

Pwnc neu grŵp (B=Bechgyn, M=Merched)	Canran y cofrestriadau TGAU sy'n cyflawni pob gradd neu'n uwch yn ôl gwlad y DU																			
	Cymru				Lloegr				Yr Alban				Gogledd Iwerddon				Y DU			
	Gradd 7/A		Gradd 4/C		Gradd 7/A		Gradd 4/C		Gradd 7/A		Gradd 4/C		Gradd 7/A		Gradd 4/C		Gradd 7/A		Gradd 4/C	
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M
Cyfrifiadura	21.4	22.3	57.8	66.7	20.6	24.9	61.7	66.2	29.7	38.8	73.3	80.4	44.0	52.9	88.7	86.3	20.8	24.9	61.7	96.7
TGCh	15.5	25.9	65.2	76.9									35.1	45.8	81	86.1	23.3	34.3	71.4	80.8
Dylunio a Technoleg	11.4	26.2	57	73.5	15.6	28.3	58.4	74.6	14.3	28.8	66.7	81.0	19.9	35.2	76.8	86.8	15.5	28.5	59.1	75
Gwyddorau Eraill	27.1	40	71	75	44.8	33.5	82	79					26.9	16.7	78.9	77.4	41.4	31.9	80.5	78.6
Peirianeg					9.7	24.4	48.1	70.8	46.4	62.7	83.0	90.7	13.3	15	63.6	65	10.3	23.4	50.5	70.1
Bioleg	39.7	46	89	89.8	40.4	44.2	88.9	90.3	27.5	30.5	69.5	71.1	46.8	51	95.3	94.4	40.5	44.3	89	90.3
Ffiseg	47.5	40.8	92	90.2	45.7	41.8	90.9	90.7	28.0	41.2	71.7	81.8	52.6	60.8	95.7	98.7	45.9	42	91.1	90.8
Cemeg	43.4	45.8	91	90.3	42.9	45	89.5	90.6	33.4	35.6	76.9	76.9	52.4	63.4	93.4	96.9	43	45.3	89.6	90.7
Mathemateg	12.8	13.3	48.7	51.1	16.6	15.2	60.1	59.2	30.9	30.9	65.2	65.8	24	27.1	70.3	72.3	16.7	15.5	59.9	59.2
Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl	5.6	7.9	50.4	54.4	6.6	8.5	52.9	58					20.9	27.5	86.6	90.1	6.8	8.8	53.4	58.5
Pob pwnc	14.6	22	57.8	67.6	17.5	23.8	62.7	71.5	30.8	39.2	76.0	80.2	25	35.7	78.5	85.6	17.6	24.1	62.9	71.7

Testun gwyrdd - yn dynodi pynciau lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A/7 a C/4 neu uwch.

Testun oren - yn dynodi pynciau lle mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A/7 a C/4 neu uwch.

Noder: Mae Cyfrifiadura a TGCh yn cynnwys Cyfrifiadureg, Cyfrifiadura, neu TGCh. Mae Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys Crefft, Dylunio a Thechnoleg (data Llywodraeth Cymru), Dylunio a Thechnoleg neu Ddylunio a Gweithgynhyrchu. Mae peirianeg yn cynnwys Gwyddoniaeth Peirianeg yn yr Alban.

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau TGAU Dros Dro (Cwrs Llawn) - Mehefin 2019; Awdurdod Cymwysterau'r Alban - Ystadegau Cyrhaeddiad (Awst) 2019.

2.5 Dyheadau gyrfa

Mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg 'Gwirio Gyrfa' yn flynyddol sy'n casglu cipolwg ar farn, agweddau, anghenion cymorth, hyder a dyheadau pobl ifanc mewn perthynas â'u nodau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol. Pwrpas yr arolwg yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i gynghorwyr gyrfa ar lefel unigol i lywio gwaith wedi'i dargedu gyda disgyblion yn ystod Blynyddoedd 10 ac 11. Mae'r arolwg yn casglu data gan y mwyafrif o ddisgyblion yn ystod Blwyddyn 10, ond weithiau cesglir data yn ystod Blwyddyn 9 neu 11 os, am resymau'n ymwneud â logisteg, na ellir eu casglu yn ystod Blwyddyn 10.

Mae'r arolwg Gwirio Gyrfa yn cynnwys 22 o gwestiynau. Mae un o gwestiynau'r arolwg yn gofyn i bobl ifanc pa feysydd, o blith rhestr o 30 o feysydd gyrfa, sydd o ddiddordeb iddynt; gall disgyblion ddewis hyd at bedwar ymateb o'r rhestr hon. Mae'r categorïau galwedigaethol yn seiliedig ar godau SOC.⁸

Mae pobl ifanc yn cwblhau'r arolwg ar-lein, gyda'r mwyafrif yn ei gwblhau'n unigol yn ystod sesiwn grŵp wedi'i hwyluso gan gynghorydd gyrfa yn yr ysgol. Mae rhai disgyblion yn ei gwblhau'n annibynnol os na allant fynd i sesiwn wedi'i hwyluso (e.e. gellir anfon neges destun atynt gyda dolen i gwblhau'r arolwg).

Nod Gyrfa Cymru yw casglu data Gwirio Gyrfa gan gynifer o ddisgyblion Blwyddyn 10 â phosibl, ond yn nodweddiadol derbynnir ymatebion gan oddeutu 80 y cant o'r holl ddisgyblion. Er bod hon yn sampl fawr a bod y gyfradd ymateb yn uchel, mae rhai cyfyngiadau i'r data.

- Yn gyntaf, mae'r arolwg yn seiliedig ar sampl cyfleustra (h.y. pawb sy'n barod i gwblhau'r arolwg ac yn gallu gwneud hynny) ac nid yw'r data'n cael ei bwysoli felly ni ellir tybio ei fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o ddisgyblion.
- Yn ail, mae'r arolwg yn canolbwyntio ar lefel unigol ac nid yw wedi'i gynllunio i fod yn offeryn i gasglu data cyfanredol dilysedig gan bobl ifanc.
- Yn drydydd, nid yw'r arolwg yn cael ei weinyddu mewn ffordd systematig; er enghraifft, gellir casglu data ar wahanol bwyntiau (Blynyddoedd 9, 10 neu 11) a allai ddylanwadu ar ymatebion disgyblion, a chesglir data mewn gwahanol sefyllfaoedd (e.e. y mwyafrif mewn sesiynau grŵp wedi'u hwyluso, rhai yn unigol).
- Yn olaf, cesglir y data cyn cyflwyno unrhyw ymyriadau wedi'u targedu gan staff Gyrfa Cymru (h.y. mae'n arolwg sylfaenol neu ddiagnostig). Mae hyn yn golygu nad yw barn pobl ifanc wedi cael ei llywio eto gan drafodaethau gydag chynghorwyr gyrfa am y cyfleoedd addysg neu gyflogaeth sydd ar gael.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu y dylid trin y canlyniadau'n ofalus. Fodd bynnag, mae'r data'n seiliedig ar sampl fawr a gellir eu dadansoddi i ddarparu canlyniadau dangosol gwerthfawr ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae data ar gyfer 2017, 2018 a 2019 yn dangos rhai patrymau yn ôl rhywedd:

- Mae canrannau uwch o fenywod yn dewis rhai meysydd gyrfa sy'n gysylltiedig â STEM fel eu dewis cyntaf, a hynny'n gyson;

⁸ Mae'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) yn ddosbarthiad cyffredin o wybodaeth alwedigaethol ar gyfer y DU.

- yn arbennig y meysydd **lechyd a Meddygol** a **Gofal Anifeiliaid**.
- Mae canran uwch o wrywod yn tueddu i ddewis meysydd gyrfya eraill sy'n gysylltiedig â STEM fel eu dewis cyntaf
 - yn arbennig **Peirianeg**, **Cyfrifiaduron**, **Meddalwedd a TG** a **Adeiladu ac Adeiladu**.

Dangosir y pum prif faes gyrfya a ddewiswyd gan ddisgyblion gwrywaidd a benywaidd yn 2019 yn Tabl 12.

Tabl 12. Y pum maes gyrfya mwyaf poblogaidd sy'n ddewis cyntaf i ddisgyblion gwrywaidd a benywaidd Blwyddyn 10 2017-2019 *


Gwrywod			Benywod		
2017	2018	2019	2017	2018	2019
1. Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth	1. Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth	1. Peirianeg	1. lechyd a Meddygol	1. lechyd a Meddygol	1. lechyd a Meddygol
2. Peirianeg	2. Peirianeg	2. Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth	2. Gwallt a Harddwch	2. Celf a Dylunio	2. Gofal Plant
3. Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG	3. Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG	3. Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG	3. Celf a Dylunio	3. Gofal Plant	3. Celf a Dylunio
4. Adeiladu ac Adeiladwaith	4. Adeiladu ac Adeiladwaith	4. Adeiladu ac Adeiladwaith	4. Gofal Plant	4. Gwallt a Harddwch	4. Addysgu ac Addysg
5. Gwasanaethau Brys, Diogelwch a'r Lluoedd Arfog	5. Gwasanaethau Brys, Diogelwch a'r Lluoedd Arfog	5. Gwasanaethau Brys, Diogelwch a'r Lluoedd Arfog	5. Gofal Anifeiliaid	5. Gofal Anifeiliaid	5. Gofal Anifeiliaid

*Derbynnir ymatebion yn nodweddiadol gan oddeutu 80 y cant o'r holl ddisgyblion. Gellir casglu data ar wahanol bwyntiau (Blynnydoedd 9, 10 neu 11) a allai ddylanwadu ar ymatebion disgyblion. Cesglir data mewn gwahanol sefyllfaoedd (e.e. y rhan fwyaf mewn sesiynau grŵp wedi'u hwyluso, rhai yn unigol).

Ffynhonnell: Gyrfya Cymru

Mae Ffigur 14 yn cyflwyno'r data ar gyfer yr holl ddewisiadau o ran meysydd gyrfya dros y tair blynedd ddiwethaf (2017-19). Mae'n dangos bod disgyblion gwrywaidd Blwyddyn 10 yn tueddu i fod yn fwy tebygol na benywod o ddewis meysydd gyrfya sy'n gysylltiedig â STEM fel eu dewis cyntaf. Yn 2019, roedd pump allan o'r 10 dewis gyrfya mwyaf poblogaidd ymhlith disgyblion gwrywaidd yn gysylltiedig â STEM, o gymharu â dau o blith y 10 dewis mwyaf poblogaidd ymhlith disgyblion benywaidd.

Ffigur 14. Meysydd gyrfa a oedd yn ddewis cyntaf i ddisgyblion Blwyddyn 10 mewn ysgolion 2017-2019



Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Canfyddiadau allweddol: Dysgwyr mewn addysg orfodol

Cynradd



- Mae merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn mewn **asesiadau cynradd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth** yn ystod y Cyfnod Sylfaen (Mathemateg yn unig) a Chyfnod Allweddol 2.



Uwchradd

Cyfnod Allweddol 3



- Mae'r bwlch rhwng canran y merched a'r bechgyn sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (Lefel 5+) yng **Nghyfnod Allweddol 3** wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf:
 - Mathemateg o 2.5 i 4.2 pwynt canran.
 - Gwyddoniaeth o 1.9 i 4.8 pwynt canran.



Cofrestriadau TGAU



- Mae **cofrestriadau TGAU** mewn pynciau academaidd STEM wedi cynyddu ymhlith merched a bechgyn. Bellach, mae mwy o ferched na bechgyn yn astudio TGAU **Bioleg, Ffiseg a Chemeg**;



- Mae canran uwch o ferched na bechgyn yn cyflawni **graddau A/A*** neu **A*-C mewn TGAU** yn y rhan fwyaf o bynciau STEM.

Cyrhaeddiad mewn TGAU



- Fodd bynnag, yn 2018/19 roedd canran y bechgyn a gafodd **A*** mewn TGAU **Ffiseg** 5.7% yn uwch na merched.
- Mae llawer llai o ferched na bechgyn yn cofrestru ar gyfer **TGAU mewn TGCh a Dylunio a Thechnoleg**, er gwaetha'r ffaith bod canran uwch o ferched yn cyflawni graddau A* -C.
- Mae nifer y merched sy'n cofrestru ar gyfer **TGAU TGCh** wedi haneru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae nifer y bechgyn sy'n astudio TGCh wedi aros yn ddigyfnewid.



Dyheadau Gyrfa



- Mae canrannau uwch o fenywod Blwyddyn 10 yn anelu at yrfa mewn maes sy'n gysylltiedig â STEM, yn benodol y meysydd **lechyd a Meddygol a Gofal Anifeiliaid**.
- Mae canran uwch o wrywod yn tueddu i anelu at yrfa mewn maes sy'n gysylltiedig â STEM yn benodol **Peirianeg, Cyfrifiaduron, Meddalwedd a TG ac Adeiladu ac Adeiladwaith**.




3. Dysgwyr mewn addysg ôl-16

Nodir data ar gyfranogiad a chyrraedd diad dysgwyr mewn addysg ôl-16 yn yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys data ar gofrestriadau a chanlyniadau Safon Uwch a chyfranogiad mewn Addysg Bellach (AB), Dysgu Seiliedig ar Waith, Addysg Oedolion ac Addysg Uwch (AU).

3.1 Cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch

Mae'r Cydgyngor Cymwysterau yn cyhoeddi data ar nifer y cofrestriadau Safon Uwch yn ôl rhywedd. Ar draws pob pwnc Safon Uwch, roedd 57 y cant o'r cofrestriadau yng Nghymru gan ferched yn 2018/19. Cofrestrodd niferoedd eithaf cytbwys o fechgyn a merched ar gyfer Cemeg Safon Uwch (48 y cant o fechgyn, 52 y cant o ferched). Fodd bynnag, roedd anghydbwysedd amlwg rhwng y rhywiau ym mhob pwnc STEM arall yn 2018/19, yn fwyaf arbennig Cyfrifiadura (bechgyn 89 y cant) a Gwyddorau Eraill (86 y cant). Dangosir pynciau Safon Uwch lle roedd mwy na 55 y cant o'r cofrestriadau yn 2018/19 gan fechgyn neu ferched yn Ffigur 15.

Ffigur 15. Pynciau STEM Safon Uwch lle roedd mwy na 55 y cant o'r cofrestriadau yn 2018/19 yn rhai gan fechgyn neu ferched.



Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau dros dro Safon Uwch TAG ac UG TAG Haf 2019

Dengys Tabl 13 nifer y bechgyn a'r merched sy'n dechrau ar bynciau STEM Safon Uwch unigol yn 2018/19 yn ogystal â chyfran ganrannol y rhain.⁹

⁹ Dangosir seicoleg ar wahân yn y tabl hwn gan fod y data'n cael ei gyhoeddi gan y Cyd-gyngor Cymwysterau. Fodd bynnag, ni chyhoeddir data cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer Seicoleg ar wahân gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'r pwnc wedi'i gynnwys yn y Gwyddorau Cymdeithasol.

Tabl 13. Nifer a chyfran ganrannol y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer 2018/19 yn ôl rhywedd

Pwnc	Nifer y cofrestriadau		Cyfran ganrannol yr holl gofrestrïadau	
	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
Bioleg	1007	1628	38%	62%
Cemeg	1107	1223	48%	52%
Cyfrifiadura	329	40	89%	11%
Dylunio a Thechnoleg	422	207	67%	33%
TGCh	315	170	65%	35%
Mathemateg	2102	1483	59%	41%
Mathemateg (Bellach)	378	172	69%	31%
Ffiseg	1229	386	76%	24%
Seicoleg	402	1440	22%	78%
Gwyddorau Eraill	162	27	86%	14%
Pob pwnc	13639	17844	43%	57%

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau dros dro Safon Uwch TAG ac UG TAG Haf 2019

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gofrestrïadau Safon Uwch gan ysgolion yn ôl pwnc a rhywedd dros y cyfnod 2008/09 i 2018/19, gan ei gwneud yn bosibl cynnal dadansoddiad manylach o'r duedd. Dengys y data fod nifer cyffredinol y cofrestriadau Safon Uwch o ysgolion yng Nghymru ar draws pob pwnc wedi gostwng dros draean rhwng 2008/09 a 2018/19. Gostyngodd rhai pynciau STEM unigol yn fwy na'r cyfartaledd: gostyngodd nifer y merched a gofrestrodd ar gyfer arholiadau Safon Uwch TGCh 78.2 y cant (59.2 ymhlith bechgyn) a gostyngodd y nifer a gofrestrodd ar gyfer Dylunio a Thechnoleg 51.2 y cant (33.7 y cant ymhlith bechgyn).¹⁰

Dengys Ffigur 16, mewn rhai pynciau STEM, fod y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau Safon Uwch o ysgolion yn dra gwahanol rhwng bechgyn a merched. Cynyddodd nifer y cofrestriadau ar gyfer Ffiseg Safon Uwch gan ferched 6.8 y cant rhwng 2008/09 a 2018/19 mewn cyferbyniad â nifer y cofrestriadau gan fechgyn, a ostyngodd 15.5 y cant dros yr un cyfnod. Mae'r set ddata lawn wedi'i chynnwys yn Tabl 14 a Thabl 15.

¹⁰ Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg)

Ffigur 16. Pynciau STEM lle roedd gwahaniaeth sylweddol yn y newidiadau yn nifer y cofrestrïadau ar gyfer TGAU ymhlith merched a bechgyn 2008/09 i 2018/19*

Roedd canran y <u>cynnydd</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol uwch ymhlith merched	Roedd canran y <u>cynnydd</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol uwch ymhlith bechgyn
Ffiseg	Dim
Roedd canran y <u>gostyngiad</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol is ymhlith merched	Roedd canran y <u>gostyngiad</u> yn y cofrestrïadau'n sylweddol is ymhlith bechgyn
Biolog Cemeg Gwyddorau Eraill	Dylunio a Thechnoleg TGCh

*Diffinnir gwahaniaeth sylweddol fel gwahaniaeth o dros ddeg pwynt canran rhwng bechgyn a merched.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Tabl 14. Newid canrannol yn nifer y cofrestrïadau ar gyfer pynciau Safon Uwch STEM unigol yn ôl rhywedd 2008/09 - 2018/19

Pwnc	Newid canrannol 2008/09 - 2018/19	
	Bechgyn	Merched
Biolog	-27.0%	-8.7%
Cemeg	-25.5%	-2.1%
Ffiseg	-15.5%	6.8%
Gwyddorau Eraill	-59.4%	-42.9%
Dylunio a Thechnoleg	-33.7%	-51.2%
TGCh	-59.2%	-78.2%
Mathemateg	-13.2%	-13.6%
Pob pwnc	-37.6%	-32.9%

Mae'r testun **Gwyrdd** ac **Oren** yn dynodi pynciau lle roedd y cynnydd/gostyngiad canrannol dros 10 pwynt canran yn uwch/is ymhlith **merched** neu **fechgyn**.

Noder: Nid yw rhai pynciau'n cael eu cyhoeddi'n unigol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfrifiadura wedi'i gynnwys o fewn TGCh, Mathemateg (Pellach) wedi'i gynnwys o fewn Mathemateg.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

Tabl 15. Nifer y cofrestriadau gan ysgolion mewn pynciau Safon Uwch 2008/09 - 2018/19

Pwnc	Nifer y cofrestriadau													
	2012/13		2013/14		2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19	
	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
Gwyddorau Biolegol	43%	57%	43%	57%	40%	60%	39%	61%	40%	60%	39%	61%	38%	62%
Cemeg	54%	46%	55%	45%	54%	46%	53%	47%	54%	46%	51%	49%	47%	53%
Ffiseg	82%	18%	80%	20%	79%	21%	79%	21%	81%	19%	78%	22%	76%	24%
Gwyddorau Eraill	85%	15%	84%	16%	82%	18%	82%	18%	84%	16%	92%	8%	85%	15%
Dylunio a Thechnoleg*	64%	36%	65%	35%	63%	37%	59%	41%	61%	39%	62%	38%	66%	34%
TGCh	60%	40%	66%	34%	70%	30%	64%	36%	73%	27%	73%	27%	73%	27%
Mathemateg	60%	40%	61%	39%	62%	38%	60%	40%	62%	38%	61%	39%	60%	40%
Pob pwnc	43%	57%	44%	56%	43%	57%	42%	58%	43%	57%	43%	57%	42%	58%

*Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg

Ni ddangoswyd data ar gyfer blynyddoedd cyn 2012/13 am resymau'n ymwneud â'r cyflwyniad.

Noder: Ni ddangosir Economeg y Cartref gan fod y niferoedd yn rhy fach i fod yn ystyrion.


Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Mae'r data isod yn dadansoddi cyfanswm nifer y cofrestriadau arholiad Safon Uwch a chanlyniadau tri grŵp o bynciau yn ôl rhywedd, fel y'u diffinnir gan awduron yr adroddiad hwn yn Tabl 6 (Gweler Adran 2.4). Ym mhob un o'r grwpiau canlynol, mae nifer y cofrestriadau ar gyfer pob pwnc unigol wedi'u crynhoi i gyfrifo cyfanswm y cofrestriadau o fewn:

- Pynciau academiaidd STEM;
- Pynciau Gwyddorau Cymdeithasol;
- Pynciau academiaidd eraill;

Dengys Ffigur 17 fod nifer y cofrestriadau Safon Uwch o ysgolion ar gyfer pynciau academiaidd STEM wedi gostwng tua chwarter (23.0 y cant ymhlith merched a 28.6 y cant ymhlith bechgyn).¹¹ Felly nid yw'r gostyngiad canrannol yn nifer y cofrestriadau mewn pynciau STEM mor fawr â'r gostyngiad ar draws pob pwnc. Gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer pynciau galwedigaethol STEM 53.3 y cant ymhlith bechgyn a 74.1 y cant ymhlith merched, a gostyngodd nifer y cofrestriadau mewn pynciau Gwyddorau Cymdeithasol 21.5 y cant ymhlith merched a 32.3 y cant ymhlith bechgyn.¹²

Ffigur 17. Nifer y cofrestriadau gan ysgolion mewn pynciau Safon Uwch 2008/09 - 2018/19



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

¹¹ Pynciau academiaidd STEM a ddiffinnir yn Adran 2.4 fel Gwyddorau Biolegol, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, Economeg y Cartref, TGCh, Mathemateg, Gwyddorau Eraill a Ffiseg,

¹² Pynciau galwedigaethol STEM a ddiffinnir yn Adran 2.4 fel Busnes Cymhwysol (CG), Peirianeg Gymhwysol (CG), TGCh Gymhwysol (CG), Gwyddoniaeth Gymhwysol (CG). Diffinnir y Gwyddorau Cymdeithasol yn Adran 2.4 fel Astudiaethau Busnes, Economeg, Daeryddiaeth ac Astudiaethau Cymdeithasol.

Er nad yw canran y gostyngiad y nifer y cofrestriadau mewn pynciau STEM mor fawr â'r gostyngiad ar draws pob pwnc, dengys Tabl 14 uchod fod y niferoedd mewn rhai pynciau STEM unigol wedi gostwng yn fwy na'r cyfartaledd: gostyngodd nifer y merched a gofrestrodd ar gyfer arholiadau Safon Uwch TGCh 78.2 y cant (59.2 ymhlith bechgyn) a gostyngodd y nifer a gofrestrodd ar gyfer Dylunio a Thechnoleg 51.2 y cant (33.7 y cant ymhlith bechgyn).¹³

3.2 Canlyniadau Safon Uwch


Ar draws pob pwnc, mae canran uwch o ferched na bechgyn yn cyflawni graddau A*-C ar Safon Uwch, gyda bwch o 5 pwynt canran o leiaf ym mhob blwyddyn rhwng 2010/11 a 2018/19. Dengys Ffigur 18 y niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau Safon Uwch mewn pynciau academaidd STEM yn 2018/19 yn ogystal â'r ganran sy'n cyflawni graddau A* -C ym mhob pwnc. Mae'r data'n dangos bod y bwch rhwng canran y merched a'r bechgyn sy'n cyflawni gradd A*-C yn 2018/19 yn weddol gul mewn Mathemateg, Cemeg a Gwyddorau Biolegol, er bod llawer mwy o fechgyn na merched wedi cofrestru ar gyfer Mathemateg a bod llawer mwy o ferched na bechgyn wedi cofrestru ar gyfer Gwyddorau Biolegol Safon Uwch.

Perfformiodd merched yn sylweddol well na bechgyn o ran y ganran a gyflawnodd raddau A* -C mewn Ffiseg (merched dros bum pwynt canran yn uwch), Dylunio a Thechnoleg (15 pwynt canran yn uwch) a TGCh (dros wyth pwynt canran yn uwch). Fodd bynnag, cofrestrodd cryn dipyn yn llai o ferched na bechgyn ar gyfer Safon Uwch ym mhob un o'r pynciau hyn:

- Ffiseg - 237 o ferched, 738 o fechgyn;
- TGCh - 144 o ferched, 381 o fechgyn.
- Dylunio a Thechnoleg - 176 o ferched, 344 o fechgyn.

¹³ Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg)

Ffigur 18. Nifer y cofrestriadau Safon Uwch o ysgolion a'r ganran gyfatebol a gyflawnodd raddau A*-C 2018/19



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

Dengys Tabl 16 ganran y merched a'r bechgyn sy'n cyflawni graddau Safon Uwch unigol yn 2018/19. Dengys fod canran uwch o ferched na bechgyn a gyflawnodd raddau A* ac A mewn Ffiseg a Dylunio a Thechnoleg, er gwaethaf y ffaith bod canran uwch o fechgyn yn cyflawni A*-C; Cyflawnodd canran uwch o fechgyn raddau A* mewn Mathemateg a TGCh, gyda merched yn fwy tebygol o ennill graddau A, B ac C yn y pynciau hyn.

Tabl 16. Canran y disgyblion a gyflawnodd bob gradd mewn pynciau academaidd STEM Safon Uwch yn 2018/19

Pwnc / Bechgyn (B) a Merched (G)	Canran y disgyblion a chyflawni pob gradd																Nifer y cofrestrïadau	
	A*		A		B		C		D		E		Anraddedig		A*-C		B	M
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M		
Gwyddorau Biolegol	8.8	11.6	20.1	17.7	20.8	23.2	21.4	20.5	16.2	15	11.5	10.9	1.1	1.2	71.2	73	611	1010
Cemeg	10	9.4	24.4	22.6	24.7	27.4	21.6	21.5	13.8	14	4.9	5	-	-	80.8	80.9	647	716
Ffiseg	11.2	12.2	16.9	19.8	23.3	24.9	21.5	21.5	14.5	14.8	10.8	6.8	1.6	0	73	78.5	738	237
Gwyddorau Eraill	8.8	6.3	3.3	31.3	16.5	12.5	27.5	6.3	19.8	25	16.5	18.8	7.7	0	56	56.3	91	16
Dylunio a Thechnoleg	2.9	5.1	7	18.8	22.4	19.9	25.9	22.7	25	22.7	15.7	10.2	1.2	0.6	58.1	66.5	344	176
TGCh	3.1	2.1	8.4	10.4	15.2	17.4	24.9	36.8	32.5	23.6	13.6	9	2.1	0.7	51.7	66.7	381	144
Mathemateg	22.8	18.5	25.5	26.6	18.9	19.2	13.5	16.1	10.6	11.6	7.9	6.9	0.9	1.1	80.7	80.4	1261	850
Pob pwnc	8.5	8.4	16.1	17.8	23.9	28	24.6	25.2	17.3	14.6	8.5	5.6	1.0	-	73.1	79.4	8278	11309

Testun gwyrdd - yn dynodi pynciau lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A*, A, B neu C.

Testun oren - yn dynodi pynciau lle mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A*, A, B neu C.

*Gall gynnwys TGAU megis Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Tecstilau, Technoleg Bwyd, Cynhyrchion Electronig, Cynhyrchion Graffig, Deunyddiau Gwrthiannol, Systemau a Rheoli, Peirianeg, Dylunio Cynnyrch a/neu Astudiaethau Cerbydau Modur

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy Sefydliadau Dyfarnu a chorff casglu data dan gontract) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

3.2.1 Cymharu cofrestrïadau Safon Uwch â gwledydd eraill y DU

Wrth archwilio'r cydbwysedd o ran rhywedd yng nghanran y cofrestrïadau o fewn pynciau academiaidd STEM, mae Tabl 17 yn dangos bod patrymau tebyg i Gymru ledled Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda:

- chyfran sylweddol uwch o gofrestrïadau gan ferched mewn:
 - Bioleg ar draws pedair gwlad y DU;
 - Seicoleg yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- cyfran sylweddol uwch o gofrestrïadau gan fechgyn mewn:
 - Cyfrifiadura, Dylunio a Thechnoleg, Mathemateg a Ffiseg ar draws pedair gwlad y DU;
 - TGCh, Mathemateg (Pellach), Gwyddorau Eraill yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- cyfran fwy cyfartal o gofrestrïadau mewn Cemeg gan fechgyn a merched ar draws pedair gwlad y DU.

Tabl 17. Cyfran ganrannol y cofrestrïadau pwnc Cymhwyster Safon Uwch neu Advance Higher STEM yn ôl rhywedd a gwlad y DU

Pwnc / Bechgyn (B) a Merched (G)	Cymru		Lloegr		Gogledd Iwerddon		Yr Alban		Y DU	
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M
Bioleg	38%	62%	37%	63%	35%	65%	29%	71%	37%	63%
Cemeg	48%	52%	46%	54%	44%	56%	44%	56%	46%	54%
Cyfrifiadura	89%	11%	87%	13%	81%	19%	86%	14%	87%	13%
Dylunio a Thechnoleg	67%	33%	68%	32%	71%	29%	59%	41%	68%	32%
TGCh	65%	35%	75%	25%	62%	38%	-	-	64%	36%
Mathemateg	59%	41%	61%	39%	57%	43%	59%	41%	61%	39%
Mathemateg (Bellach)	69%	31%	72%	28%	70%	30%	-	-	71%	29%
Ffiseg	76%	24%	78%	22%	73%	27%	77%	23%	77%	23%
Seicoleg	22%	78%	26%	74%	19%	81%	-	-	26%	74%
Gwyddorau Eraill	86%	14%	77%	23%	46%	54%	-	-	70%	30%
Pob pwnc	43%	57%	45%	55%	44%	56%	44%	56%	45%	55%

Testun gwyrdd - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestrïadau yn rhai gan ferched.

Testun oren - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestrïadau yn rhai gan fechgyn.

Noder: Mae Cyfrifiadura a TGCh yn cynnwys Cyfrifiadureg, Cyfrifiadura, neu TGCh. Mae Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys Dylunio a Thechnoleg neu Ddylunio a Gweithgynhyrchu. Mae peirianneg yn cynnwys Gwyddoniaeth Peirianneg yn yr Alban.

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau Safon Uwch TAG a Safon Uwch Gyfrannol TAG dros dro Haf 2019; Awdurdod Cymwysterau'r Alban - Ystadegau Cyrhaeddiad (Awst) 2019

Dengys Tabl 18 ddata cyrhaeddiad Safon Uwch (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) ac Advanced Higher (Yr Alban) ar gyfer pynciau STEM yn ôl gwlad y DU. Mae'n dangos

canran y merched a'r bechgyn a gofrestrwyd sy'n ennill graddau A neu'n uwch a gradd C neu'n uwch mewn pynciau STEM unigol.

Mae'r data'n dangos y canlynol:

- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar draws pob un o'r pedair gwlad o ran y ganran sy'n cyflawni graddau A neu uwch neu C neu uwch mewn pynciau STEM TGAU.
 - Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y ddau fesur (A neu'n uwch ac C neu'n uwch) mewn **Dylunio a Thechnoleg, Bioleg a Seicoleg** ym mhob un o'r pedair gwlad;
 - Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y ddau fesur mewn **TGCh** yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac ar y mesur A*-C yn Lloegr;
 - Yng Nghymru a Lloegr, mae canran uwch o ferched na bechgyn yn ennill graddau A*-A mewn **Cemeg a Mathemateg**, ond mae'r mesurau A*-C yn y ddau bwnc yn fwy cyfartal o ran rhywedd;
- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y ddau fesur mewn **Ffiseg** yng Nghymru a'r Alban, ond nid mewn mannau eraill;
 - Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched ar y ddau fesur yng Ngogledd Iwerddon, ac mae darlun mwy cyfartal i'w weld yn Lloegr;
- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn **Gwyddorau Eraill** yng Nghymru, ond mae'r data'n dangos darlun mwy cyfartal yng Nghymru a Gogledd Iwerddon;
- Mae darlun mwy cyfartal i'w weld mewn **Cyfrifiadura** yng Nghymru, lle ceir gwahaniaethau gweddol fach mewn cyrhaeddiad yn ôl rhywedd.
 - Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o gryn dipyn yn yr Alban.

Tabl 18. Canran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd raddau A neu uwch ac C neu uwch mewn arholiadau Safon Uwch ac Advanced Higher yn ôl pwnc a gwlad y DU

Pwnc neu grŵp / Bechgyn (B) Merched (G)	Canran y cofrestriadau Safon Uwch / Advanced Higher sy'n cyflawni pob gradd neu'n uwch yn ôl cenedl y DU																			
	Cymru				Lloegr				Yr Alban				Gogledd Iwerddon				Y DU			
	Gradd A*/A		Gradd A*-C		Gradd A*/A		Gradd A*-C		Gradd A		Gradd A-C		Gradd A*/A		Gradd A*-C		Gradd A*/A		Gradd A*-C	
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M
Cyfrifiadura	18.5	15	58.7	62.5	17.4	18.7	62.9	62.7	23.2	29.2	64	74.2	27.9	23.7	82.9	74.6	17.8	18.7	63.4	63.1
TGCh	6.7	10.6	47	67.6	7	0	65.1	71.4	-	-	-	-	14.9	26.9	70.6	75.9	12	21.4	62.9	73.4
Dylunio a Thechnoleg	10.2	26.1	58.3	69.1	14	19.8	64.8	73.2	6.4	9.4	59.6	71.9	18.4	27.8	78.1	84.9	14.2	20.7	65.6	73.9
Gwyddorau Eraill	11.7	25.9	54.9	59.3	27.5	26	72.1	73.2	-	-	-	-	13	10.3	66.9	65.5	23.8	19.4	69.8	69.6
Bioleg	30.8	30.2	72.7	73.5	21.9	24.4	64.5	67.4	21.2	26.0	72.2	74.9	34.5	34.5	83.5	85.3	22.7	25	65.5	68.3
Ffiseg	30.5	36.3	73.1	78	27.3	28.1	69.8	70.9	29.0	39.9	76.7	84.7	35.5	37.8	81.2	78.8	27.6	28.7	70.2	71.4
Cemeg	36.9	33.3	80.1	80.7	30.1	27	71.5	71.3	33.1	34.3	82.6	81.9	44.8	44.1	86.7	87.6	30.7	27.7	72.3	72.1
Mathemateg	45.8	44.4	76	77.3	41.8	38.5	75	75.1	36.3	38.6	73.9	77.5	49.2	48.2	88.2	90	42.1	39.1	75.5	75.7
Mathemateg (Bellach)	62.2	57.6	90.2	90.7	54.1	50.5	86.3	86.4	-	-	-	-	62.8	68.6	96.7	100	54.5	51	86.6	86.6
Seicoleg	14.2	21.8	70.4	79.2	10	18.7	60.7	74.2	-	-	-	-	10.4	16.5	59.4	73.3	10.1	18.8	60.9	74.4
Pob pwnc	26.5	27.4	73.2	78.7	25.2	25.1	73.3	77.2	31.5	32.0	76.8	81.4	29.1	32.3	83.1	86.1	25.4	25.5	73.7	77.6

Testun gwyrdd - yn dynodi pynciau lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A/7 a C/4 neu uwch.

Testun oren - yn dynodi pynciau lle mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o un pwynt canran o leiaf o ran y ganran sy'n ennill graddau A/7 ac C/4 neu uwch.


Noder: Mae Cyfrifiadura a TGCh yn cynnwys Cyfrifiadureg, Cyfrifiadura, neu TGCh. Mae Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys Crefft, Dylunio a Thechnoleg (data Llywodraeth Cymru), Dylunio a Thechnoleg neu Ddylunio a Gweithgynhyrchu.

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau: Canlyniadau Safon Uwch TAG dros dro a TAG UG Haf 2019; Awdurdod Cymwysterau'r Alban - Ystadegau Cyrhaeddiad (Awst) 2019

3.3 Addysg bellach

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar weithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach (SAB) yn ôl pwnc a rhywedd. Dengys y data yn Ffigur 19 fod nifer gyffredinol y gweithgareddau dysgu ar draws yr holl feysydd pwnc a dysgwyr wedi gostwng 42 y cant rhwng 2012/13 a 2017/18. Gwelwyd gostyngiad o fwy na hanner yn nifer y gweithgareddau dysgu mewn pynciau STEM mewn SAB (52 y cant) ymhlith benywod, a 40 y cant ymhlith gwrywod rhwng 2012/13 a 2017/18.¹⁴ Os yw Gwyddorau Cymdeithasol wedi'u grwpio â phynciau STEM yn y dadansoddiad, gostyngodd nifer y gweithgareddau dysgu 48 y cant ymysg benywod, a 37 y cant ymysg gwrywod dros yr un cyfnod amser.¹⁵

Ffigur 19. Gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl pwnc a rhywedd



(2) Ni ellir cymharu data o 2017/18 ymlaen â data hyd at 2016/17 oherwydd newidiadau mewn dulliau casglu. *O 1 Awst 2017 ni chaiff gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, a darpariaeth Cymraeg i Oedolion mewn sefydliadau Addysg Bellach ei chasglu drwy'r LLWR mwyach.

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

¹⁴ Pynciau STEM a ddiffinnir fel Meddygaeth a Deintyddiaeth; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth; Gwyddoniaeth; Mathemateg ac Ystadegau; Amaethyddiaeth; Garddwriaeth a Choedwigaeth; Gofal Anifeiliaid a Gwyddor Filfeddygol; Cadwraeth Amgylcheddol; Arall (Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid); Peirianeg; Technolegau Gweithgynhyrchu; Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Trafnidiaeth; Eraill (Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu); Pensaerniaeth; Adeiladu ac Adeiladu; Arall (Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig); Ymarferwyr TGCh; TGCh i Ddefnyddwyr; Arall (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu). Archaeoleg a Gwyddorau Archeolegol; Cyfrifeg a Chyllid.

¹⁵ Diffinnir Gwyddorau Cymdeithasol fel Hanes; Athroniaeth; Daearyddiaeth; Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol; Gwleidyddiaeth; Economeg; Arall (Gwyddorau Cymdeithasol); Gweinyddiaeth a Rheoli Busnes.

3.3.1 Cymharu cofrestriadau AB â gwledydd eraill y DU

Gan ganiatáu ar gyfer rhai gwahaniaethau bach yn y diffiniadau o gyrsiau STEM ar draws gwledydd y DU, gellir cymharu'r cydbwysedd o ran rhywedd mewn cofrestriadau drwy archwilio cyfran y cofrestriadau o bob gwlad gan wrywod a benywod.

Yng Nghymru, mae data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 yn dangos y canlynol:

- roedd dwy ran o dair (67.6 y cant) o'r holl gofrestriadau ar gyrsiau STEM FE yn gofrestriadau gan wrywod, a (32.4 y cant) gan fenywod;
- mae cyfran y cofrestriadau ar gyrsiau STEM gan fenywod wedi gostwng o 37.6 y cant yn 2012/13 i 32.4 y cant yn 2017/18.
- roedd ychydig yn fwy na hanner y cofrestriadau ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol yn rhai gan fenywod (53.5 y cant) gydag ychydig o dan hanner gan wrywod (46.5 y cant).

Yn yr Alban, cyhoeddir data ar gofrestriadau yn ôl pwnc a rhywedd gan Gyngor Cyllido'r Alban. Dengys y data diweddaraf ar gyfer 2017/18 y canlynol:

- roedd dros hanner (57.0 y cant) o'r holl gofrestriadau ar gyrsiau STEM AB yn gofrestriadau gan wrywod, a 42.8 y cant) gan fenywod;¹⁶
- arhosodd cyfran y cofrestriadau ar gyrsiau STEM AB gan fenywod yn weddol gyson rhwng 2012/13 (42.1 y cant) a 2017/18;
- roedd dros hanner y cofrestriadau ar gyrsiau Gwyddorau Cymdeithasol (60.1 y cant) yn gofrestriadau gan fenywod, gyda 39.7 y cant gan wrywod.

Yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddir data ar gofrestriadau yn ôl maes pwnc gan yr Adran Addysg.¹⁷ Dengys y data diweddaraf ar gyfer 2017/18 y canlynol:

- roedd dros ddwy ran o dair o'r cofrestriadau ar bynciau STEM 'eang' (71.9 y cant) gan wrywod, gydag ychydig dros chwarter (28.1 y cant) gan fenywod;
- roedd cyfran y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau pwnc STEM sy'n fenywod wedi gostwng o 32 y cant i 28 y cant rhwng 2013/14 a 2017/18.


Dengys Ffigur 20 gyfran ganrannol y cofrestriadau gan wrywod a benywod ar gyrsiau STEM mewn colegau AB yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2017/18. Nid yw

¹⁶ Data o [gronfa ddata Infact](#) SFC. Diffiniad STEM sy'n deillio o'r awduron ac sy'n cynnwys: Technoleg Gwybodaeth a Gwybodaeth; Gofal Iechyd / Meddygaeth / Iechyd a Diogelwch; Diogelu'r Amgylchedd / Ynni / Glanhau / Diogelwch; Gwyddorau a Mathemateg; Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid; Adeiladu ac Eiddo (Amgylchedd Adeiledig); Gweithgynhyrchu / Gwaith Cynhyrchu; Peirianeg; Olew / Mwyngloddio / Plastigau / Cemegau; Gwasanaethau Trafnidiaeth.

¹⁷ Mae'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio dosbarthiad pwnc STEM 'eang' a 'chul' ar gyfer ystadegau AB: "Nodir darpariaeth STEM yn ôl y cod pwnc a gofnodwyd gan y coleg AB. Os yw'r cod pwnc yn dechrau gyda llythyren rhwng A a K (Meddygaeth, Deintyddiaeth a Phynciau Perthynol; Gwyddorau Biologol a Ffisegol; Amaethyddiaeth; Mathemateg a TG; Peirianeg a Thechnoleg; Pensaerniaeth, Adeiladu a Chynllunio) yna fe'i ystyrir yn STEM 'Eang'. STEM 'cul' yw'r cofnodion cofrestru hynny gyda chod pwnc sy'n dechrau gyda llythyren C, F, G, H neu J (Gwyddorau Biologol a Ffisegol; Mathemateg a TG; Peirianeg a Thechnoleg)."

data ar gofrestrïadau yn ôl pwnic a rhywedd yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn gan yr Adran Addysg yn Lloegr.

Ffigur 20. Cyfran canrannol y cofrestrïadau ar gyrsiau STEM mewn colegau AB yn ôl rhywedd 2017/18



Ffynonellau: Cofnod Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru; [Cronfa ddata Infact Cyngor Cyllido yr Alban](#); Adran Addysg Gogledd Iwerddon.

3.4 Dysgu seiliedig ar waith

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar nifer y rhaglenni dysgu drwy brentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl y math o raglen brentisiaeth, lefel astudio a rhywedd. Cyflwynir data blynyddol yn Ffigur 21 yn seiliedig ar brentisiaethau Lefel 2 (Sylfaen) a Lefel 3, yn ogystal â phrentisiaethau uwch (Lefel 4 ac uwch). Mae'r diffiniad o raglenni prentisiaeth STEM ar

gyfer y dadansoddiad isod yn seiliedig ar fathau o raglenni unigol a ddewiswyd gan yr awduron.¹⁸


Yn 2017/18, roedd ychydig dros hanner y cofrestrïadau ar brentisiaethau ym meysydd pwnc y sector STEM yng Nghymru gan fenywod (52.3 y cant), gydag ychydig llai na hanner gan wrywod (47.4 y cant). Dengys Ffigur 21 isod nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth Lefelau 2, 3 ac Uwch a ddechreuwyd mewn meysydd pwnc STEM yn ôl rhyw yn flynyddol rhwng 2012/13 a 2017/18. Mae'r data'n dangos, dros y cyfnod 2012/13 i 2017/18, bod:

- Y niferoedd a ddechreuodd ar raglenni **Prentisiaeth Lefel 2** mewn meysydd pwnc STEM wedi amrywio, ond wedi gostwng bump y cant yn gyffredinol ymhlith benywod ac wyth y cant ymhlith gwrywod.
 - Mae hyn yn cymharu â chwymp o 18 y cant ymhlith benywod a naw y cant ymhlith gwrywod o ran cyfanswm y nifer a ddechreuodd ar raglenni prentisiaeth Lefel 2 (ar draws pob math o raglen) dros yr un cyfnod.
 - Erbyn 2017/18, roedd nifer debyg o wrywod (4,765) a benywod (4,565) yn ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth Lefel 2 mewn meysydd yn ymwneud â STEM.
- Cynyddodd y niferoedd a ddechreuodd ar raglen **Prentisiaeth Lefel 3** mewn meysydd pwnc STEM bron i 40 y cant, gyda chynnydd o 59 y cant ymhlith benywod a 24 y cant ymhlith gwrywod.
 - Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 25 y cant ar draws yr holl raglenni Lefel 3 rhwng 2012/13 a 2017/18.
 - Erbyn 2017/18, roedd nifer fwy o fenywod wedi dechrau ar brentisiaethau Lefel 3 o gymharu â gwrywod mewn mathau o raglenni'n ymwneud â STEM.
- At ei gilydd, gwneir llai o **brentisiaethau uwch (Lefel 4 ac uwch)** (5,105 yn 2017/18) o gymharu â'r rhai ar Lefelau 2 a 3.

¹⁸Mae'r rhain yn cynnwys: Amaethyddiaeth; Gofal Anifeiliaid; Ceffylau; Garddwriaeth; Nyrsio Milfeddygol; Fframweithiau Sectorau Eraill - Amaethyddiaeth; Adeiladu (Adeilad - ac eithrio Arbenigwr); Adeiladu (Arbenigwr); Adeiladu (Peirianeg Sifil) - Prentisiaeth; Adeiladu (Peirianeg Sifil) - Prentisiaeth Sylfaen Mynediad Uniongyrchol; Adeiladu (Technegol a Phroffesiynol); Rheoli Adeiladu; Electrodechnegol; Ffensio; Gwresogi ac Awyru; Tai; Plymio a Gwresogi; Oeri ac Aerdymeru; Fframweithiau Sectorau Eraill - Adeiladu (2); Cludiant; Adeiladu Peirianeg Uwch; Peirianeg; Gweithgynhyrchu Peirianeg; Gweithgynhyrchu Peirianeg - Prentisiaeth Uwch; Gweithrediadau Echdynnu a Phrosesu Mwynau; Gwella Perfformiad Gweithredol (Mynediad Uniongyrchol Peirianeg); Gweithrediadau a Gwella Ansawdd; Peirianeg Rheilffyrdd (Trac); Gweithrediadau Gwaith Corff a Phaentio Cerbydau; Ffitio Cerbydau; Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau; Rhannau Cerbydau; Fframweithiau Sectorau Eraill - Peirianeg (2); Bwyd a Diod; Gwella Perfformiad Gweithredol; Fframweithiau Sectorau Eraill - Gweithgynhyrchu (2); Cyfrifeg; Defnyddwyr TG; Gweithwyr Proffesiynol TG, Meddalwedd, Gwe a Thelathrebu; Darparu Gwasanaethau Ariannol; Dadansoddeg Data; Coginio Crefftus; Lletygarwch ac Arlwyyo; Iechyd - Cymorth Gofal Iechyd Clinigol; Iechyd - Nyrsio Deintyddol; Iechyd - Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd; Iechyd - Gwasanaethau Fferylliaeth; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Fframwaith Proffesiynol mewn Ymarfer Uwch mewn Gofal Cymdeithasol; Fframwaith Proffesiynol mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gofal Cymdeithasol; Rheoli Adnoddau Cynaliadwy; Fframweithiau Sector Eraill - Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus (2); Cyfryngau Creadigol a Digidol; Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol; Fframweithiau Sector Eraill - Cyfryngau a Dylunio (2).

- Fodd bynnag, cynyddodd y nifer a gychwynwyd gan fenywod 62 y cant rhwng 2012/13 a 2017/18, gyda'r nifer a gychwynwyd gan wrywod yn cynyddu 123 y cant dros yr un cyfnod.
 - Mae llawer o'r twf mewn Prentisiaethau Uwch ymhlith gwrywod a benywod yn cael ei sbarduno gan gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dechrau ar Fframwaith Proffesiynol Ymarfer Uwch mewn Gofal Cymdeithasol.
- Mae benywod yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r holl rai sy'n dechrau ar raglenni prentisiaeth uwch mewn meysydd sy'n ymwneud â STEM (930 allan o 1,380 yn 2017/18).

Ffigur 21. Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth Lefelau 2, 3 ac Uwch a ddechreuwyd mewn meysydd pwnc STEM yn ôl rhywedd yn flynyddol rhwng 2012/13 a 2017/18



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

3.4.1 Cymharu data prentisiaethau o Gymru â gwledydd eraill y DU

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data prentisiaethau yn ôl maes pwnc ar draws gwledydd y DU gan y bu gwahaniaeth sylweddol rhwng systemau prentisiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan bob gwlad yn y DU systemau prentisiaeth gwahanol ac mae'n defnyddio ei phynciau prentisiaeth, ei fframweithiau a'i llwybrau ei hun. Mae hyn yn golygu bod grwpiau o 'brentisiaethau STEM' yn wahanol ar gyfer pob gwlad. Isod, rydym yn disgrifio'r data ar gydbwysedd o ran rhywedd mewn prentisiaethau a ddiffinnir fel rhai sydd

o fewn y grŵp STEM ym mhob gwlad yn y DU.¹⁹ Fodd bynnag, dylid osgoi cymharu perfformiad y gwledydd oherwydd y gwahaniaethau a ddisgrifir uchod.

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod ychydig dros hanner y cofrestriadau ar brentisiaethau ym meysydd pwnc y sector STEM yng Nghymru yn gofrestrïadau gan fenywod (52.3 y cant), gydag ychydig yn llai na hanner gan wrywod (47.4 y cant). Mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhan o'r sector STEM, roedd ychydig yn llai na thri chwarter (72.9 y cant) o'r cofrestriadau gan fenywod, gydag ychydig dros chwarter (27.5 y cant) gan wrywod. Mae cyfran yr holl gofrestrïadau gan fenywod ar brentisiaethau ym meysydd pwnc y sector STEM wedi aros ar gyfradd o tua 50 y cant er 2012/13. Yng ngwledydd eraill y DU, mae'r data mwyaf diweddar yn dangos y canlynol:

- Yn Lloegr, roedd 56.3 y cant o'r rhai a ddechreuodd brentisiaethau mewn meysydd pwnc STEM yn 2018/19 yn wrywod, a 43.7 y cant yn fenywod.²⁰
 - Mewn meysydd pwnc eraill, roedd y mwyafrif (57.0 y cant) yn fenywod, gyda 42.7 y cant yn wrywod.
- Yn yr Alban, roedd 91.1 y cant o'r holl bobl a ddechreuodd Brentisiaeth Fodern mewn meysydd pwnc STEM yn wrywod, gydag 8.9 y cant yn fenywod yn 2018/19.²¹
- Yng Ngogledd Iwerddon, roedd 96.7 y cant o'r cyfranogwyr ar brentisiaethau STEM ym mis Ebrill 2019 yn wrywod, gyda dim ond 3.3 y cant yn fenywod; mae hyn yn cymharu â 42 y cant o wrywod a 57 y cant o fenywod mewn fframweithiau prentisiaeth nad ydynt yn ymwneud â STEM.²²

¹⁹ Mae data ar brentisiaethau yn ôl rhywedd a llwybr yn Lloegr ar gael [yma](#). Mae data ar Brentisiaethau Modern yn ôl fframwaith a rhywedd yn yr Alban ar gael [yma](#). Mae data ar brentisiaethau yn ôl fframwaith a rhywedd yng Ngogledd Iwerddon ar gael [yma](#).


²⁰ Meysydd pwnc STEM a ddiffiniwyd gan awduron yr adroddiad hwn fel rhai sy'n cynnwys y canlynol o ystadegau yr Adran Addysg yn Lloegr: Amaethyddiaeth; Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid; Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu; Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; Gwyddoniaeth a Mathemateg.

²¹ Mae Skills Development Scotland a Llywodraeth yr Alban yn cytuno ar restr o fframweithiau Prentisiaeth Fodern STEM yn flynyddol. Mae'r rhestr ar gyfer 2018/19 yn cynnwys y meysydd pwnc canlynol: Amaethyddiaeth, Dyframaethu, Crefftau Modurol, Biotechnoleg, Peirianeg a Chynnal a Chadw Bysiau a Choetsys, Adeiladu, Cyfryngau Creadigol a Digidol, Prentisiaeth Dechnegol mewn Dadansoddeg Data, Nyrsio Deintyddol, Cymwysïadau Digidol, Plymio a Gwresogi Domestig, Gosod Trydanol, Systemau Diogelwch Electronig, Gwasanaethau Electrotechnegol, Peirianeg, Ceffylau, Systemau Gwresogi Nwy ac Effeithlonrwydd Ynni, Diwydiant Nwy, Gwresogi, Awyru, Aerdymheru ac Oeri, Garddwriaeth, Cymwysïadau Diwydiannol, Gweithwyr Proffesiynol Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu, Diogelwch Gwybodaeth, TG a Thelathrebu, Peirianeg tir, Gwyddorau Bywyd, Gwyddor Bywyd a Diwydiannau Gwyddoniaeth Gysylltiedig, Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith, Echdynnu Olew a Nwy, Gwasanaethau Fferylliaeth, Plymio, Prosesu Polymer, Dosbarthu Pŵer, Gweithgynhyrchu Prosesau, Peirianeg Rheilffyrdd, Peirianeg Trafnidiaeth Rheilffordd, Coed a Phren, Cynhyrchu Olew a Nwy i Fyny'r Afon, y Diwydiant Dŵr, Rheoli Trin Dŵr, Gosod a Chomisiynu Tyrbinau Gwynt, Gweithrediadau Tyrbinau Gwynt a Chynnal a Chadw.

²² Fframweithiau prentisiaeth STEM a ddiffiniwyd gan awduron yr adroddiad hwn o ddata Adran yr Economi Gogledd Iwerddon fel: Cyfrifyddu, Amaethyddiaeth, Garddwriaeth Amwynderau, Gofal Anifeiliaid, Gweithrediadau Hedfan ar y Tir, Adeiladu, Crefftau Adeiladu, Adeiladu Technegol, Cyfryngau Creadigol a Digidol, Nyrsio Deintyddol, Gyrru Cerbydau Nwyddau, Gwasanaethau Offer Trydanol ac Electronig, Peirianeg Dosbarthu a Throsglwyddo Trydan, Peirianeg Pŵer Trydanol, Electrotechnegol, Peirianeg, Diwydiant Ceffylau, Gwresogi, Awyru, Aerdymheru ac Oeri, Defnyddiwr TG, Proffesiynol TG a Thelathrebu, Peirianeg Gwasanaeth Tir, Gweithrediadau Corff Cerbydau Ysgafn a Phaent, Gwasanaethau Peirianeg Fecanyddol (Plymio), Gwasanaethau

Dengys Ffigur 22 ganran y cofrestrïadau gan wrywod a benywod ar brentisiaethau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â STEM erbyn y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael ym mhob gwlad yn y DU.

Ffigur 22. Canran y cofrestrïadau gan wrywod a benywod ar brentisiaethau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â STEM* 2017-19**



*Mae'r data'n seiliedig ar wahanol ddiffiniadau o STEM a gwahanol systemau prentisiaeth ym mhob gwlad.

**Mae data Cymru yn seiliedig ar y rhai a ddechreuodd yn ystod 2017/18. Mae data Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar y rhai a ddechreuodd yn 2018/19. Mae data Gogledd Iwerddon yn seiliedig ar gyfranogwyr ym mis Ebrill 2019.

Ffynonellau: Cofnod Dysgu Gydol Oes (LLWR), Llywodraeth Cymru; Adran Addysg, Lloegr. Skills Development Scotland a Llywodraeth yr Alban; Ystadegau Prentisiaethau Gogledd Iwerddon, Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon.

Fferylliaeth, Tirfesru, Gwaith Corff a Phaentio Cerbydau, Ffitio Cerbydau, Cynnal a Thrwsio Cerbydau, Rhannau Cerbydau, Gwerthu Cerbydau, Nyrsgo Milfeddygol.

3.6 Addysg Uwch

Cyflwynir data ar nifer y cofrestriadau ar gyrsiau AU yn yr adran hon.²³ Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddata yn yr adran hon yn seiliedig ar ble mae myfyrwyr yn astudio, yn hytrach na ble maent yn preswyllo.

3.6.1 Cofrestriadau


Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn cyhoeddi data ar nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau AU gyda darparwyr yng Nghymru yn ôl pwnc unigol a rhywedd. Mae HESA yn grwpio'r pynciau canlynol gyda'i gilydd o dan y categori 'meysydd pwnc gwyddoniaeth'. Yng ngweddill yr adran hon, cyfeirir at y rhain fel 'gyrsiau STEM':

- Meddygaeth a deintyddiaeth
- Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth
- Gwyddorau biolegol
- Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig
- Gwyddorau ffisegol
- Gwyddorau mathemategol
- Cyfrifiadureg
- Peirianeg a thechnoleg
- Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio

Cynyddodd cyfanswm y cofrestriadau ar gyrsiau STEM mewn SAU yng Nghymru o 58,015 yn 2013/14 i 61,785 yn 2017/18. Mae hyn yn gynydd o 6.5 y cant dros y cyfnod hwn, mewn gwrthgyferbyniad â chwymp o 5.5 y cant ar draws yr holl feysydd pwnc. Cafodd y cynnydd mewn cofrestriadau ar gyrsiau maes gwyddoniaeth ei ysgogi gan gynydd yn nifer y cofrestriadau gan fenywod. Dengys Ffigur 23 fod nifer y benywod sy'n cofrestru ar gyrsiau gwyddoniaeth wedi cynyddu o 26,705 yn 2013/14 i 30,825 yn 2017/18; cynnydd o 15.4 y cant, o'i gymharu â chwymp o 1.2 y cant ymhlith gwrywod dros yr un cyfnod. Erbyn 2017/18, roedd bron cymaint o fenywod (30,825) â gwrywod wedi cofrestru ar gyrsiau AU yn y maes pwnc gwyddoniaeth (30,905).

²³ Mae UCAS hefyd yn casglu data ar nifer y ceisiadau, ymgeiswyr unigryw a derbyniadau ar gyfer cyrsiau AU yn ôl grŵp pwnc a rhywedd. Cesglir y data hyn yn barhaus, ond ni chânt eu cyhoeddi yn y ffigurau ymgeiswyr ar ddiwedd cylch UCAS.


Ffigur 23. Cofrestriadau myfyrwyr mewn SAU yng Nghymru ar gyrsiau STEM yn ôl rhywedd*



*Cyrsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.
Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Adlewyrchir y data uchod mewn data sy'n dangos bod cyfran gynyddol o fenywod yn dewis pynciau gwyddoniaeth yn hytrach na phynciau nad ydynt yn ymwneud â gwyddoniaeth mewn SAU yng Nghymru. Dengys y data yn Ffigur 24 fod canran y benywod a gofrestrodd ar gyrsiau yn y maes pwnc gwyddoniaeth wedi cynyddu o 37 y cant yn 2013/14 i 43 y cant yn 2017/18. Mae'r data hefyd yn dangos bod canran uwch o wrywod wedi cofrestru ar gyrsiau maes pwnc gwyddoniaeth mewn SAU yng Nghymru bob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2017/18.

Ffigur 24. Nifer y cofrestriadau ar gyrsiau STEM AU yng Nghymru 2017/18, a chanran gyfatebol y benywod a gofrestrodd



*Cyrsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.
Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Dengys Tabl 19, rhwng 2013/14 a 2017/18, fod y codiadau canrannol mwyaf yn nifer y benywod sy'n cofrestru ar bynciau STEM AU mewn SAU yng Nghymru mewn: Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth; Gwyddorau biolegol; Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig; a Phensaerniaeth, adeiladu a chynllunio. Dros yr un cyfnod, gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn nifer y cofrestriadau gan fenywod mewn Meddygaeth a deintyddiaeth (er bod y

gostyngiad yn nifer y benywod yn llai na'r gostyngiad yn nifer y gwrywod) a Chyfrifiadureg (lle y gostyngodd nifer y cofrestrïadau o gymharu â chynnydd bach ymhlith gwrywod.

Tabl 19. Newid canrannol mewn cofrestrïadau ar gyrsiau STEM AU mewn SAU yng Nghymru yn ôl rhywedd 2013/14 i 2017/18**


Maes Pwnc	Benywod	Gwrywod	Arall	Cyfanswm
Meddygaeth a deintyddiaeth	-14.3%	-32.0%	*	-21.6%
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	22.1%	20.6%	200.0%	21.9%
Gwyddorau biolegol	22.7%	0.9%	*	12.6%
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig	19.4%	-16.3%	*	1.9%
Gwyddorau ffisegol	12.9%	-1.4%	*	3.9%
Gwyddorau mathemategol	-5.3%	3.7%	*	0.3%
Cyfrifiadureg	-10.4%	0.9%	*	-1.0%
Peirianeg a thechnoleg	2.5%	-4.8%	0.0%	-3.8%
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	23.4%	2.8%	*	10.1%
Cyfanswm - cyrsiau STEM	15.4%	-1.2%	266.7%	6.5%
Cyfanswm - Pob pwnc	-1.5%	-10.2%	283.3%	-5.5%

*Ni chofnodwyd unrhyw fyfyrwr fel 'eraill' yn 2013/14. **Cyrsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi data o HESA sy'n dangos y pynciau y mae myfyrwyr sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru) yn eu hastudio. Dengys y data yn Ffigur 25 fod nifer cynyddol o fenywod sy'n hanu o Gymru wedi cofrestru ar gyrsiau STEM AU dros y tair blynedd diwethaf, tra bod nifer y gwrywod wedi aros yn weddol sefydlog.


Ffigur 25. Nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a gofrestrodd ar gyrsiau STEM a chysiau nad ydynt yn ymwneud â STEM mewn SAU ledled y DU



Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Dengys Ffigur 26 fod y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer y cofrestriadau gan fenywod sy'n hanu o Gymru wedi'u gweld mewn Peirianeg a Thechnoleg, Gwyddorau Ffisegol, Amaethyddiaeth a Phynciau cysylltiedig, Cyfrifiadureg a Gwyddorau Biolegol.

Ffigur 26. Newid canrannol yn nifer y cofrestriadau gan fenywod sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau STEM AU mewn SAU yn y DU 2016/17 - 2018/19




Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

3.6.2 Cymharu data AU â gwledydd eraill

Mewn SAU yng Nghymru, mae canran y rhai sy'n cofrestru ar gyrsiau STEM AU sy'n fenywod (waeth ble maen nhw'n preswyllo) wedi cynyddu o 46 y cant yn 2013/14 i 49.9 y cant yn 2017/18 (Ffigur 27). Er bod y bwllch rhwng cyfranogiad gwrywod a benywod wedi culhau, mae canran y benywod yn parhau i fod ychydig y tu ôl i weddill y DU. Yn 2017/18, roedd canran y rhai a gofrestrodd ar gyrsiau STEM mewn AU sy'n fenywod yn 53.0 y cant yn yr Alban, 52.9 y cant yng Ngogledd Iwerddon a 51.8 y cant yn Lloegr.

Ffigur 27. Canran y myfyrwyr benywaidd sy'n cofrestru ar gyrsiau STEM AU mewn SAU*



Noder: mae'r data'n seiliedig ar y wlad y mae myfyrwyr yn astudio ynddi, yn hytrach na'r wlad y maent yn hanu ohoni

*Cyrsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Wrth gymharu meysydd pwnc unigol â gwledydd eraill y DU, dengys Tabl 20 fod canran uwch o gofrestriadau gan fenywod ar gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae canran y rhai sy'n cofrestru ar gyrsiau Gwyddorau Biolegol, Gwyddorau Ffisegol, Cyfrifiadureg a Pheirianeg a thechnoleg yn is nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Tabl 20. Canran y benywod a gofrestrodd ar gyrsiau STEM AU yn ôl maes pwnc a gwlad y DU 2017/18

Maes Pwnc	Canran y myfyrwyr benyiadd a gofrestrodd ar gyrsiau STEM*				
	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Y DU
Meddygaeth a deintyddiaeth	63.8%	57.3%	60.5%	62.5%	58.2%
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	78.6%	78.6%	81.7%	82.1%	79.1%
Gwyddorau biolegol	58.0%	64.4%	65.8%	62.6%	64.1%
Gwyddoniaeth filfeddygol		76.9%	81.3%		77.7%
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig	60.8%	64.9%	61.4%	60.0%	64.0%
Gwyddorau ffisegol	40.0%	42.2%	45.2%	44.0%	42.5%
Gwyddorau mathemategol	39.1%	36.2%	41.6%	41.9%	36.9%
Cyfrifiadureg	15.4%	17.0%	20.7%	23.9%	17.6%
Peirianeg a thechnoleg	14.7%	18.2%	19.4%	20.8%	18.2%
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	40.7%	37.8%	42.5%	29.1%	38.2%
Cyfanswm - cyrsiau STEM	49.9%	51.8%	53.0%	52.9%	51.9%

Testun gwyrdd - yn dynodi cyrsiau lle roedd dros 55 y cant o'r cofrestrïadau yn fenywod. **Testun oren** - yn dynodi cyrsiau lle roedd dros 45 y cant o'r cofrestrïadau yn fenywod.

*Cyrsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.


Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

3.7 Addysg oedolion

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar nifer y gweithgareddau dysgu yn y sector addysg oedolion yn ôl pwnc a rhywedd. Mae'r data'n dangos, rhwng 2012/13 a 2017/18, bod nifer y gweithgareddau dysgu cymunedol gan awdurdodau lleol wedi gostwng tua 60 y cant yn gyffredinol. Dengys Ffigur 28, mewn pynciau STEM, fod y niferoedd wedi gostwng 69 y cant ymhlith benywod a 72 y cant ymhlith gwrywod dros y cyfnod hwn.²⁴

²⁴ Mae'r awduron wedi defnyddio'r un diffiniad o bynciau STEM ar gyfer Addysg Oedolion ag a ddefnyddiwyd ar gyfer AB. Mae'r rhain yn cynnwys: Meddygaeth a Deintyddiaeth; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth; Gwyddoniaeth; Mathemateg ac Ystadegau; Amaethyddiaeth; Garddwriaeth a Choedwigaeth; Gofal Anifeiliaid a Gwyddor Filfeddygol; Cadwraeth Amgylcheddol; Arall (Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid); Peirianeg; Technolegau Gweithgynhyrchu; Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Trafnidiaeth; Eraill (Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu); Pensaernïaeth; Adeiladu ac Adeiladu; Arall (Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig); Ymarferwyr TGCh; TGCh i Ddefnyddwyr; Arall (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu). Archaeoleg a Gwyddorau Archeolegol; Cyfrifeg a Chyllid.

Ffigur 28. Gweithgareddau dysgu cymunedol awdurdodau lleol mewn pynciau STEM yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

Canfyddiadau allweddol: Addysg ôl-16


Safon Uwch



Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Oedolion



- Mewn arholiadau **Safon Uwch** mae canran uwch o fechgyn na merched yn cyflawni graddau **A/A*** neu **A*-C** yn y mwyafrif o bynciau STEM.
- Mae llawer llai o ferched na bechgyn yn cofrestru ar gyfer **Safon Uwch mewn TGCh a Dylunio a Thechnoleg**, er gwaetha'r ffaith bod canran uwch o ferched yn cyflawni graddau A*-C.
 - Cyflawnodd canran uwch o ferched na bechgyn raddau A*-C ar draws pob pwnc Safon Uwch ac eithrio Mathemateg yn 18/19.
 - Ond mae llai o ferched na bechgyn yn mynd i mewn i Safon Uwch Mathemateg, Ffiseg, TGCh a Dylunio a Thechnoleg.
- Mae nifer y merched sy'n cofrestru ar gyfer **TGCh a Dylunio a Thechnoleg Safon Uwch** yn gostwng yn gyflymach na bechgyn.
- Mewn **AB**, bu mwy o leihad mewn gweithgareddau dysgu STEM ymhlith benywod na gwrywod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
 - Mae cofrestrïadau gan fenywod yn cynrychioli ychydig yn llai na thraean y cyrsiau STEM AB (32.4% yn 2017/18).
- Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae dros hanner y cofrestrïadau ar gyfer **Prentisiaethau STEM** yn gofrestrïadau gan fenywod (52.3% yn 2017/18).
 - Mae mwy o fenywod na gwrywod yn astudio Prentisiaethau STEM **lefel uwch**.
- Cofrestrodd mwy o fenywod na gwrywod ar gyrsiau **STEM i oedolion** yn 2017/18.



Addysg Uwch



- Mae nifer y benywod sy'n cofrestru ar **gyrsiau STEM mewn AU** wedi cynyddu; mae'r bwlch yn nifer y cofrestrïadau gan fenywod o'i gymharu â gwrywod wedi cau i raddau helaeth.
 - Fodd bynnag, roedd 58% o **staff addysgu AU** mewn meysydd AU sy'n gysylltiedig â STEM yn wrywod a 42% yn fenywod yn 2017/18.
 - Mewn **gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol**, roedd dwy ran o dair o'r staff yn wrywaidd yn 2017/18, ond mewn **peirianeg a thechnoleg**, mae 81% o'r staff yn wrywaidd.



4. Y gweithlu addysg

Cyflwynir data ar y gweithlu addysg yn yr adran hon, gan gynnwys ceisiadau a chofrestriadau ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (AGA), proffil athrawon ac ymarferwyr cofrestredig a'r gweithlu AU.

4.1 Addysg gychwynnol i athrawon (AGA)

Mae UCAS a HESA yn casglu data ar geisiadau am gyrsiau AGA a chofrestriadau ar gyrsiau o'r fath. Mae'r adran hon yn amlinellu'r manylion ynghylch argaeledd y data hyn.

4.1.1 Ceisiadau AGA

Mae UCAS yn casglu ac yn cyhoeddi data ar statws ceisiadau ymgeiswyr am gyrsiau Hyfforddiant Athrawon y cyfnod uwchradd yn ôl pwnc fel rhan o'i adroddiadau Diwedd Cylch rhwng 2016 a 2018 (Gweler Tablau B14 a B15 o adroddiad Diwedd Cylch 2018 [yma](#)). Ni chyhoeddir y data hyn yn ôl rhywedd, er bod UCAS yn casglu gwybodaeth am rywedd ymgeiswyr.

4.1.2 Cofrestriadau AGA

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data a gesglir gan HESA ar nifer y Blynnyddoedd Cyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU yn ôl pwnc a rhywedd. Ar draws yr holl feysydd pwnc, gostyngodd nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn SAU yn y DU 35 y cant rhwng 2010/11 a 2017/18. Dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau AGA mewn meysydd pwnc STEM 42 y cant ymhlith benywod a 47 y cant ymhlith gwrywod.²⁵ Y pynciau â'r gostyngiad canrannol mwyaf ymhlith benywod oedd Ffiseg (cwmp o 67 y cant), Bioleg (cwmp o 54 y cant) a Dylunio a Thechnoleg (cwmp o 45 y cant). Ymhlith gwrywod, gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn Dylunio a Thechnoleg a TG. Yn y Gwyddorau Cymdeithasol, gostyngodd nifer y cofrestriadau 21 y cant ymhlith benywod ond roedd yn ddigymffwrdd ymhlith gwrywod. Os cynhwysir Gwyddorau Cymdeithasol yn y diffiniad o STEM, yna gostyngodd nifer y cofrestriadau 37 y cant ymhlith benywod a 38 y cant ymhlith gwrywod dros y cyfnod rhwng 2010/11 a 2017/18.


Dengys Ffigur 29, yn 2017/18, bod 40 y cant o'r holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n hanu o Gymru sy'n cofrestru ar gyrsiau AGA yng Nghymru, ar draws pob pwnc, yn fenywod, o gymharu â 60 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n cofrestru ledled y DU. Mewn rhai pynciau, benywod oedd mwyaf y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n cofrestru ar gyrsiau AGA yng Nghymru. Y rhain oedd:

- Cemeg - 50.0 y cant
- Bioleg - 62.5 y cant
- Dylunio a Thechnoleg - 75.0 y cant
- Mathemateg - 52.9 y cant

²⁵ Wedi'i ddiffinio gan yr awduron fel y meysydd pwnc AGA canlynol: Bioleg; Cemeg; Mathemateg; Ffiseg; TG; Dylunio a Thechnoleg; a Gwyddoniaeth Gyffredinol.

Fodd bynnag, dim ond un rhan o bump (20 y cant) o'r rhai a gofrestrodd ar gyrsiau AGA Ffiseg oedd yn fenywod yn 2017/18. Mae'r set ddata lawn ar gael yn Atodiad 1.

Ffigur 29. Canran y myfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n hancu o Gymru a gofrestrodd ar gyrsiau AGA yng Nghymru a'r DU yn ôl pwnc a rhywedd 2017/18



Noder: Nid yw data ar fyfyrwyr AGA Addysg Grefyddol yn ôl rhywedd ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio mewn SAU yng Nghymru

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

4.1.3 Cyrhaeddiad

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn cyhoeddi data ar ganlyniadau myfyrwyr AGA yn flynyddol. Cyhoeddir y data ar gyfer athrawon uwchradd yn ôl maes pwnc ac, ar wahân, fe'u cyhoeddir yn ôl rhywedd. Fodd bynnag, nid yw'r data cyhoeddiedig yn cael eu croes-dablu yn ôl maes pwnc a rhywedd.²⁶

4.2 Athrawon ac ymarferwyr cofrestredig

Mae CGA yn cynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg ac yn cynhyrchu crynodebau ystadegol blynyddol sy'n darparu data ar weithlu ysgolion, SAB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Yn 2019, roedd tri chwarter (75.5 y cant) o'r holl athrawon ysgol (cynradd ac uwchradd) yn fenywod, a chwarter (24.5 y cant) yn wrywod. Cyflwynir dadansoddiad o ddata CGA ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd isod, a chaiff hynny ei ddilyn gan ddata ar ddarparwyr AB a dysgu seiliedig ar waith.²⁷

4.2.1 Y cyfnod cynradd


Mewn ysgolion cynradd, dengys data Llywodraeth Cymru fod 83.2 y cant o'r holl athrawon yn fenywod ac 16.8 y cant yn wrywod yn 2019. Mae data CGA yn dangos mai lleiafrif bach yn unig o athrawon mewn ysgolion cynradd sydd â chymwysterau AU sy'n gysylltiedig â STEM. Dengys Ffigur 30 isod, o blith y 13,080 o athrawon ysgol a gyflogwyd yn y cyfnod cynradd yn 2019:

- Roedd gan dri y cant (387) radd neu dystysgrif ôl-raddiedig mewn pwnc STEM;
 - Roedd 41 y cant o'r rhain mewn Gwyddoniaeth Gyffredinol, 35 y cant mewn Biolog ac 13 y cant mewn Mathemateg;
- Roedd gan ddeg y cant (1,314) elfen STEM o fewn cymhwyster AGA;
 - Roedd 51 y cant o'r rhain mewn Mathemateg a 41 y cant mewn Gwyddoniaeth Gyfun/Gyffredinol.
- Roedd gan 86 y cant (11,271) o athrawon ysgolion cynradd naill ai radd ôl-raddiedig, gradd neu gymhwyster arall mewn pwnc nad oedd yn gysylltiedig â STEM.

²⁶ Gweler adroddiad diweddaraf CGA: [Canlyniadau myfyrwyr ITET 2018-19](#)

²⁷ Cyhoeddir dadansoddiadau o'r data yn ôl rhywedd ac, ar wahân, yn ôl maes pwnc gan CGA (Gweler [ystadegau 2019](#)). Fodd bynnag, nid yw'r data cyhoeddiedig yn cael ei groes-dablu yn ôl rhywedd a maes pwnc. Comisiynwyd set ddata bwrpasol gan CGA ar gyfer yr astudiaeth hon, gan alluogi data wedi'i groes-dablu i gael ei ddadansoddi yn yr adroddiad hwn.

Ffigur 30. Athrawon ysgolion cynradd cofrestredig â chymwysterau'n gysylltiedig â STEM 2019




Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

4.2.2 Cyfnod uwchradd

Yn 2019, roedd 14,659 o athrawon ysgolion uwchradd cofrestredig ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA: roedd 5,321 (36 y cant) wedi'u hyfforddi mewn pynciau STEM a 9,338 (64 y cant) wedi'u hyfforddi mewn pynciau eraill. Dengys Ffigur 31, er bod mwyafrif yr athrawon (54 y cant) a hyfforddwyd mewn pynciau STEM yn fenywod, roedd hyn yn is na chanran gyffredinol yr athrawon ysgol uwchradd (66 y cant) ac athrawon a hyfforddwyd mewn pynciau heblaw STEM (73 y cant). Arhosodd y cydbwysedd o ran rhywedd ymysg athrawon STEM ac athrawon heb hyfforddiant STEM yn weddol sefydlog rhwng 2017 a 2019, a gellir gweld cydbwysedd tebyg o ran rhywedd yn y data ar athrawon sy'n dysgu pynciau STEM (54 y cant yn fenywod) a phynciau nad ydynt yn STEM (74 y cant yn fenywod) yn ôl rhywedd (Gweler y set ddata lawn yn Atodiad 1).

Ffigur 31. Canran yr athrawon ysgolion uwchradd cofrestredig a hyfforddwyd mewn pynciau STEM a phynciau eraill yn ôl rhywedd 2019



Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Mae'r data'n dangos, yn 2019, bod mwyafrif yr athrawon a oedd yn dysgu (ac wedi'u hyfforddi mewn) Bioleg, Cemeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth Gyffredinol a Dylunio a Thechnoleg yn fenywod. Dengys Ffigur 32 fod cydbwysedd cyfartal rhwng y rhywiau mewn Cemeg, tra bod mwyafrif yr athrawon a oedd yn dysgu ac wedi'u hyfforddi mewn TGCh, Ffiseg, Peirianeg ac Electroneg yn wrywod. Roedd ychydig dros chwarter (27 y cant) yr athrawon uwchradd a gfodd eu hyfforddi mewn Ffiseg yn fenywod, o gymharu â 37 y cant a oedd yn addysgu'r pwnc.

Ffigur 32. Canran yr athrawon ysgolion uwchradd cofrestredig a oedd yn addysgu pynciau unigol ac a oedd wedi'u hyfforddi ynddynt yn ôl rhywedd 2019




Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Dengys Ffigur 33 isod rai gwahaniaethau nodedig yng nghanrannau'r athrawon gwrywaidd a benywaidd sy'n dysgu pynciau unigol sy'n arbenigwyr pwnc (h.y. wedi'u hyfforddi yn y pynciau hynny). Roedd y gwahaniaethau mwyaf yn y pynciau a ganlyn:

- Dylunio a Thechnoleg - roedd 92 y cant o athrawon gwrywaidd wedi eu hyfforddi yn y pwnc o gymharu â 68 y cant o fenywod;
- Ffiseg - roedd 52 y cant o athrawon gwrywaidd wedi eu hyfforddi yn y pwnc o gymharu â 31 y cant o fenywod;
- TGCh - roedd 45 y cant o athrawon gwrywaidd wedi eu hyfforddi yn y pwnc o gymharu â 34 y cant o fenywod;

Ffigur 33. Canran yr athrawon uwchradd sy'n dysgu pynciau unigol a hyfforddwyd yn y pynciau hynny yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

4.2.3 Ymarferwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith

Dengys y data yn Nhabl 21 fod mwyafrif yr ymarferwyr pwnc STEM AB sydd wedi'u cofrestru â CGA yn wrywod (63 y cant), o gymharu â phynciau eraill lle mae'r mwyafrif sy'n fenywod (64 y cant). Mae'r bwlch i'w briodoli i raddau helaeth i anghydbwysedd nodedig o ran rhywedd mewn Peirianeg, lle mae 93 y cant o ymarferwyr cofrestredig yn wrywod.

Tabl 21. Nifer yr athrawon addysg bellach sydd wedi'u cofrestru â CGA yn ôl pwnc a addysgir a rhywedd

Pwnc a Addysgir	Benywod		Gwrywod		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dylunio a Thechnoleg	15	56%	12	44%	27	100%
Peirianeg	20	7%	252	93%	272	100%
TGCh	86	49%	91	51%	177	100%
Mathemateg	90	50%	92	51%	182	100%
Gwyddoniaeth	113	53%	99	47%	212	100%
Cyfanswm ar gyfer Athrawon STEM AB	324	37%	546	63%	870	100%
Cyfanswm ar gyfer pynciau eraill	1,891	64%	1,079	36%	2,970	100%
Cyfanswm Cyfunol	2,215	58%	1,625	42%	3,840	100%

Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Roedd un rhan o bump (20 y cant) o ymarferwyr pwnc STEM cofrestredig darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn fenywod, o gymharu â bron i dri chwarter (73 y cant) mewn meysydd pwnc eraill. Mae'r set ddata lawn wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

4.2.4 Recriwtio athrawon

Nid oes data ar recriwtio athrawon ar gael yn ôl rhyw ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data canlynol sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon yn flynyddol, ond ni chyflwynir y data yn ôl rhywedd i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol.

- Recriwtio athrawon: nifer y swyddi lle y gwnaed penodiad yn ôl pwnc a blwyddyn
- Recriwtio athrawon: nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl pwnc a blwyddyn
- Cadw athrawon: athrawon a adawodd y proffesiwn yn ôl pwnc a chyrchfan

O 2019 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data ar lefel unigol ar weithlu ysgolion mewn casgliad data blynyddol newydd - Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Bydd hyn yn seiliedig ar ddata a gesglir drwy ddwy ffurflen: un gan yr awdurdod lleol ar dâl, contractau ac absenoldebau; ac un arall gan ysgolion a fydd yn cynnwys nodweddion staff, rolau, y cwricwlwm, recriwtio a chadw staff. Bydd y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn galluogi casglu gwell data ar weithlu ysgolion yn ôl rhywedd, gan gynnwys y cwricwlwm a addysgir a chyflog. Yn y blynyddoedd i ddod, dylai fod yn bosibl felly archwilio data recriwtio a chadw yn ôl rhywedd.²⁸

²⁸ Mae rhagor o wybodaeth am Gyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar gael yn: <https://gov.wales/school-workforce-annual-census-swac>.

4.3 Y Gweithlu Addysg Uwch

Mae HESA yn casglu data ar y gweithlu AU yng Nghymru drwy'r Cofnod Staff Addysg Uwch (HESR), a chyhoeddir data ar nifer y staff addysgu gan Lywodraeth Cymru, wedi'i ddadansoddi yn ôl grwpiau o bynciau a ddisgrifir fel 'canolfannau cost'.²⁹ Yn y dadansoddiad isod, mae'r 'canolfannau cost' wedi'u grwpio'n ddau gategori (wedi'u diffinio gan yr awduron):


- Canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM
 - Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddoniaeth filfeddygol
 - Pensaerniaeth a chynllunio
 - Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol
 - Peirianeg a thechnoleg
 - Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd
- Canolfannau cost eraill
 - Celfyddydau dylunio, creadigol a pherfformio
 - Gwasanaethau academaidd
 - Astudiaethau gweinyddol, busnes a chymdeithasol
 - Addysg
 - Dyniaethau, astudiaethau iaith ac archeoleg
 - Y Gyfraith, Economeg a gwleidyddiaeth

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod ychydig dros hanner (53 y cant) y staff addysgu AU yn wrywod yn 2017/18, gydag ychydig llai na'u hanner yn fenywod (46 y cant). Roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn fwy o fewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM, lle roedd 58 y cant o'r staff yn wrywod a 42 y cant yn fenywod yn 2017/18, o gymharu â chanolfannau cost eraill, lle roedd 52 y cant yn fenywod a 48 y cant yn wrywod.

Roedd staff meddygaeth, deintyddiaeth ac addysgu iechyd yn cyfrif am dros hanner (54 y cant) y staff addysgu mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM, ac o fewn y ganolfan gost hon mae ychydig dros hanner y gweithlu yn fenywod (53 y cant). Fodd bynnag, mewn gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol, roedd dwy ran o dair o'r staff yn wrywaidd, ond mewn peirianeg a thechnoleg, mae 81% o'r staff yn wrywaidd. Dangosir y cydbwysedd o ran rhywedd yn y gweithlu addysgu ym mhob un o'r canolfannau cost hyn yn Ffigur 34.

²⁹ Gweler Staff sy'n addysgu ym Mhrifysgolion Cymru Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn ôl canolfan gost a gallu addysgu Cymru yn: <https://statswales.gov.wales/v/HcN9>

Ffigur 34. Nifer y staff addysgu benywaidd a gwrywaidd a gyflogir yn ôl canolfan gost SAU yng Nghymru




Ffynhonnell: Cofnod staff addysgu uwch, HESA a Llywodraeth Cymru.

Bu gwelliant mewn cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran y gweithlu addysgu AU rhwng 2010/11 a 2017/18, gyda'r bwlch rhwng nifer y staff addysgu AU benywaidd a gwrywaidd yn lleihau yn gyffredinol yn ogystal ag ym mron pob canolfan gost AU. Mae'r data'n dangos bod cyfanswm nifer y staff addysgu AU wedi cynyddu 18 y cant rhwng 2010/11 a 2017/18, o 8,670 i 10,255. Dros y cyfnod hwn, cynyddodd nifer y staff addysgu benywaidd 28 y cant, a'r staff addysgu gwrywaidd 11 y cant, gyda chynnydd uwch mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM, o gymharu â phynciau eraill. Mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM, cynyddodd nifer cyffredinol y staff addysgu 29 y cant; cynnydd o 44 y cant yn nifer y benywod ac 20 y cant ymhlith gwrywod. Mewn canolfannau cost eraill, cynyddodd cyfanswm y staff addysgu 20 y cant; cynnydd o 31 y cant yn nifer y benywod ac 13 y cant ymhlith gwrywod. Dengys Ffigur 35 nifer y staff addysgu benywaidd a gwrywaidd mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM a chostau eraill rhwng 2010/11 a 2017/18. Mae'n dangos bod y bwlch rhwng nifer y benywod sy'n gweithio mewn STEM a chanolfannau cost

eraill wedi culhau dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r bwch rhwng nifer y staff addysgu gwrywaidd mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM a chanolfannau costau eraill wedi cynyddu ychydig dros yr un cyfnod.

Ffigur 35. Nifer y staff addysgu gwrywaidd a benywaidd mewn canolfannau cost sy'n gysylltiedig â STEM a chanolfannau cost eraill mewn SAU yng Nghymru 2010/11 - 2017/18



Ffynhonnell: Cofnod staff addysg uwch, HESA a Llywodraeth Cymru.

Canfyddiadau allweddol: Y gweithlu addysg

Addysg Gychwynnol i Athrawon



Athrawon ac ymarferwyr cofrestredig

- Mae cofrestriadau ar **Gyrsiau AGA** gan fyfyrwyr sy'n hanner o Gymru yn gostwng yn gyflymach mewn pynciau STEM na phynciau eraill
- 2010/11 - 17/18: gostyngiad o 42% ymhlith benywod a 47% ymhlith gwrywod.
- Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru a gofrestrodd ar gyrsiau AGA **Dylunio a Thechnoleg** (75%), **Bioleg** (63%), a **Mathemateg** (53%) yng Nghymru yn fenywod yn 2017/18.
- Fodd bynnag, dim ond 20% o'r rhai a gofrestrodd ar gyrsiau AGA **Ffiseg** oedd yn fenywod yn 2017/18.
- Dim ond **lleiafrif bach o athrawon cynradd (13%) sydd â chymwysterau AU sy'n gysylltiedig â STEM.**
- **Roedd mwyafrif yr athrawon uwchradd (54%) a hyfforddwyd mewn pynciau STEM yn fenywod**
 - Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer athrawon uwchradd (66% yn fenywod) ac athrawon wedi'u hyfforddi mewn **pynciau heblaw STEM (73% yn fenywod).**
- Mae canran is o athrawon benywaidd yn **arbenigwyr pwnc** mewn rhai pynciau (h.y. wedi'u hyfforddi yn y pynciau hynny).
 - **Dylunio a Technoleg:** 92% o wrywod wedi'u hyfforddi yn y pwnc; 68% o fenywod;
 - **Ffiseg:** 52% o wrywod; 31% o fenywod;
 - **TGCh** - 45% o wrywod; 34% o fenywod.
- Mae mwyafrif yr ymarferwyr STEM mewn **AB (63%) a Dysgu Seiliedig ar Waith (80%)** yn wrywaidd, ac mewn Peirianeg mae 93% o ymarferwyr AB yn wrywaidd.



Addysg Uwch



- Roedd 58% o **staff addysgu AU** ar gyrsiau STEM AU yn wrywaidd a 42% yn fenywaidd yn 2017/18.
- Mewn **gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol**, roedd dwy ran o dair o'r staff yn wrywaidd yn 2017/18, ond mewn **peirianeg a thechnoleg**, mae 81% o'r staff yn wrywaidd.



5. Y gweithlu, busnes a menter

Mae'r adran hon yn cyflwyno data ar gydraddoldeb rhywiol o ran cyflogaeth, enillion, perchnogaeth busnes neu reolaeth ac entrepreneuriaeth mewn sectorau a galwedigaethau sy'n ymwneud â STEM.

5.1 Cyflogaeth

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n darparu data ar y nifer mewn cyflogaeth yn ôl sector, galwedigaeth a rhywedd rhwng 2005/06 a 2018/19.

Diffinnir y ddau brif categori o alwedigaethau sy'n ymwneud â STEM fel:

- Gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET); a
- Gweithwyr cyswllt proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET);³⁰

Yn y dadansoddiad isod, defnyddir gweithwyr proffesiynol SRET a gweithwyr proffesiynol procsi SRET fel data dirprwyol ar gyfer galwedigaethau STEM a chyfeirir atynt fel gweithwyr proffesiynol STEM a gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM yn y drefn honno.

Dengys Ffigur 36 fod nifer y benywod a'r gwrywod a gyflogir fel gweithwyr proffesiynol STEM a gweithwyr proffesiynol cyswllt wedi cynyddu rhwng 2005/06 a 2018/19.

O ran y nifer a gyflogir fel gweithwyr proffesiynol STEM:

- gwelwyd cynnydd o fwy na chwarter ymhlith benywod o 8,800 yn 2005/06 i 11,300 yn 2018/19 - cynnydd o 28 y cant.
- gwelwyd cynnydd o draean ymhlith gwrywod o 37,000 i 49,200 - cynnydd o 33 y cant.


O ran y nifer a gyflogir fel gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM:

- gwelwyd cynnydd o fwy na chwarter ymhlith benywod o 4,800 yn 2005/06 i 6,100 yn 2018/19 - cynnydd o 27 y cant.
- gwelwyd cynnydd ymhlith gwrywod o 19,500 i 21,000 - cynnydd o wyth y cant.³¹

³⁰ Mae'r ddau categori hyn yn enghreifftiau o godau Dosbarthu Galwedigaethol Safonol 'dau ddigid'.

³¹ Defnyddir codau SRET SOC fel procsi ar gyfer STEM yn y dadansoddiad hwn. Dylid cymryd peth gofal wrth ddehongli'r data gan fod y cyfyngau hyder (ffin cyfeiliorniad) yn y categorïau hyn rhwng wyth a deuddeg y cant fel rheol.

Ffigur 36. Y nifer a gyflogwyd mewn galwedigaethau STEM yng Nghymru 2005/06 i 2018/19*



*Diffinnir 'gweithwyr proffesiynol STEM' a 'gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM' gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol 'Gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET)' a gweithwyr proffesiynol cyswllt fel data procsi.

Noder: Mae'r holl ddata blynyddol yn cyfeirio at flwyddyn o fis Ebrill i fis Mawrth; Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar y lefel hyder o 95 y cant ar gyfer y data yn amrywio (yn ôl blwyddyn, galwedigaeth a daearyddiaeth yn dibynnu ar faint y sampl) ond yn nodweddiadol mae tua wyth i ddeuddeg y cant ar gyfer y categorïau a restrir.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Gellir rhannu'r ddau gategori galwedigaethol STEM uchod (gweithwyr proffesiynol SRET a gweithwyr proffesiynol cyswllt) ymhellach yn gategoriâu galwedigaethol manylach.³² Lle mae maint samplau yn caniatáu, mae'r ONS yn cyhoeddi data cyflogaeth ar y rhain fel rhan o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Tabl 22 y newid canrannol yn nifer y benywod a'r gwrywod a gyflogir mewn galwedigaethau STEM yng Nghymru rhwng 2005/06 a 2018/19.

Dylid dehongli data yn yr is-gategoriâu galwedigaethol manylach hyn yn ofalus gan fod maint y sampl yn fach. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngau hyder (ffin cyfeiliorniad) ar gyfer y galwedigaethau manylach fel arfer oddeutu 20-25 y cant. Fodd bynnag, mae'r cynnydd canrannol mewn benywod a gyflogir fel Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg (117 y cant) yn sylweddol uwch na'r cynnydd ymhlith gwrywod (pedwar y cant). Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r cynnydd canrannol yn nifer y gwrywod a gyflogir fel Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu (93 y cant) a rheolwyr arbenigol TG (139 y cant) yn sylweddol uwch na benywod (30 y cant a chwymp o 16 y cant yn y drefn honno) .

³² Gelwir y categorïau galwedigaethol manylach hyn yn godau Dosbarthu Galwedigaethol Safonol 'tri digid'.

Tabl 22. Newid canrannol yn y nifer a gyflogwyd yng Nghymru 2005/06 - 2018/19

Galwedigaeth STEM (1)	Newid canrannol yn y nifer a gyflogwyd yng Nghymru 05/06 - 18/19	
	Gwrywod	Benywod
Gweithwyr proffesiynol STEM (1)	33.0%	28.4%
Gweithwyr Proffesiynol Gwyddorau Naturiol a Chymdeithasol	-2.3%	13.5%
Gweithwyr proffesiynol gwyddorau naturiol a chymdeithasol n.e.c.	-12.5%	33.3%
Gweithwyr Proffesiynol Peirianeg	3.8%	116.7%
Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu	93.1%	30.0%
Rheolwyr arbenigol TG	139.3%	-16.7%
Rhaglenwyr a gweithwyr proffesiynol datblygu meddalwedd	91.9%	100.0%
Gweithwyr Proffesiynol Cadwraeth a'r Amgylchedd	14.3%	22.2%
Gweithwyr proffesiynol yr amgylchedd	60.0%	16.7%
Gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM (1)	7.7%	27.1%
Technegwyr Gwyddoniaeth, Peirianeg a Chynhyrchu	20.5%	46.4%
Technegwyr Labordy	23.5%	29.4%
Technegwyr Technoleg Gwybodaeth	-13.3%	-5.6%
Technegwyr gweithrediadau TG	-3.1%	-10.0%
Technegwyr cymorth defnyddwyr TG	-22.2%	0.0%

Testun gwyrdd - yn dynodi galwedigaethau lle roedd y cynnydd/gostyngiad canrannol mewn cyflogaeth dros 10 pwynt canran yn uwch/is ymhlith benywod. **Testun oren** - yn dynodi galwedigaethau lle roedd y cynnydd/gostyngiad canrannol mewn cyflogaeth dros 10 pwynt canran yn uwch/is ymhlith gwrywod.

Noder: Mae'r holl ddata blynyddol yn cyfeirio at flwyddyn o fis Ebrill i fis Mawrth. Mae rhai is-grwpiau nas dangosir oherwydd bod maint sampl y grŵp yn sero neu'n ddatgeliadol (0-2); neu oherwydd bod yr amcangyfrif a chyfwng hyder yn annibynadwy gan fod maint sampl y grŵp yn fach (3-9).


Galwedigaethau sydd wedi'u labelu fel (1) - yn defnyddio data SRET fel procsi ar gyfer STEM. Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar y lefel hyder o 95 y cant ar gyfer y data yn amrywio yn ôl galwedigaeth a blwyddyn ond yn nodweddiadol mae tua wyth i ddeuddeg y cant ar gyfer y categorïau a restrir. Pob galwedigaeth arall: Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar y lefel hyder o 95 y cant yn amrywio yn ôl galwedigaeth a blwyddyn ond yn nodweddiadol mae tua 20-25 y cant ar gyfer y categorïau a restrir.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Mae'r ONS hefyd yn cyhoeddi data ar ganran yr holl wrywod a benywod mewn cyflogaeth sydd mewn galwedigaethau STEM (categori SRET a ddefnyddir fel procsi ar gyfer STEM).

Dengys Ffigur 37 fod canran y benywod a gyflogir fel gweithwyr proffesiynol STEM yng Nghymru wedi aros yn weddol sefydlog, gan gynyddu ychydig o 1.4 i 1.6 y cant rhwng 2005/06 a 2018/19. Dros yr un cyfnod, mae canran y gwrywod wedi amrywio rhywfaint, ond wedi cynyddu o 5.3 i 6.4 y cant. O ran gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM, mae nifer y benywod a gyflogir wedi aros yn weddol sefydlog, gan gynyddu ychydig o 0.8 i 0.9 y cant, tra bod nifer y gwrywod hefyd wedi aros yn weddol sefydlog, gan ostwng ychydig o 2.8 i 2.7 y cant.

Ffigur 37. Canran y rhai mewn cyflogaeth sydd mewn galwedigaethau STEM*



*Diffinnir 'gweithwyr proffesiynol STEM' a 'gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM' gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol 'Gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET)' a gweithwyr proffesiynol cyswllt fel data procsi.

Noder: Mae'r holl ddata blynyddol yn cyfeirio at flwyddyn o fis Ebrill i fis Mawrth; Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar gyfer y data yn amrywio bob blwyddyn ond yn nodweddiadol mae tua 2-3 y cant ar gyfer y categorïau a restrir ar y lefel hyder o 95 y cant.


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

5.1.1 Cymharu cyflogaeth mewn galwedigaethau STEM â gwledydd eraill y DU

Gellir cymharu canran y rhai a gyflogir fel gweithwyr proffesiynol STEM sy'n fenywod ar draws gwledydd y DU (Ffigur 38). Mae'r data'n dangos bod canran y gweithwyr proffesiynol STEM sy'n fenywod yng Nghymru wedi bod oddeutu 18 ac 20 y cant er 2009/10. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â data ar gyfer gwledydd eraill y DU dros yr un cyfnod.³³

³³ Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar gyfer y data yn amrywio bob blwyddyn ond yn nodweddiadol mae tua 2-3 y cant ar gyfer y categorïau a restrir ar y lefel hyder o 95 y cant.

Ffigur 38. Canran y rhai a gyflogwyd mewn galwedigaethau STEM sy'n fenywod yn ôl gwlad y DU*



*Diffinnir 'gweithwyr proffesiynol STEM' a 'gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM' gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol 'Gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET)' a gweithwyr proffesiynol cyswllt fel data procsi.

Noder: Mae'r holl ddata blynyddol yn cyfeirio at y flwyddyn Ebrill i Fawrth; Mae'r cyfwng hyder (ffin cyfeiliorniad) ar gyfer y data yn amrywio bob blwyddyn ond yn nodweddiadol mae tua 3-5 y cant ar gyfer y categorïau a restrir ar y lefel hyder o 95 y cant. Ni ddangosir Gogledd Iwerddon oherwydd ffin cyfeiliorniad uwch.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

5.2 Enillion

Mae'r adran hon yn archwilio data ONS sy'n ymwneud â'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau rhwng gwrywod a benywod yn ogystal â dadansoddiad o adroddiadau bwloch cyflog rhwng y rhywiau gan gwmnïau mawr.

5.2.1 Data ar y bwloch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r ONS yn cyhoeddi ystod o amcangyfrifon data enillion yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Ers 2016, mae hyn wedi cynnwys data ar y 'bwloch cyflog rhwng y rhywiau' mewn enillion dynion a menywod yn ôl sector diwydiannol a galwedigaeth. Mynegir y bwloch cyflog rhwng y rhywiau fel a ganlyn:

y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog yr awr (ac eithrio goramser) dynion a menywod fel cyfran o enillion cyfartalog yr awr (ac eithrio goramser) dynion. Er enghraifft, mae bwloch cyflog rhwng y rhywiau o 4% yn dynodi bod menywod yn ennill 4% yn llai, ar gyfartaledd, na dynion. I'r gwrthwyneb, mae bwloch cyflog rhwng y rhywiau o -4% yn dynodi bod menywod yn ennill 4% yn llai, ar gyfartaledd, na dynion.

Isod rydym yn cyflwyno dadansoddiad o'r data hyn dros amser, gyda data cyn 2016 yn seiliedig ar gyfrifiadau'r awduron, yn hytrach na dadansoddiad gan ONS. Mae'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2011-16 wedi deillio o'r awduron drwy ailadrodd y fethodoleg a ddisgrifiwyd gan ONS gan ddefnyddio enillion cyfartalog yr awr a gyhoeddwyd (ac eithrio goramser). Mae'r ONS yn nodi bod amcangyfrifon y bwloch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel y DU yn cael eu hystyried fel rhai o ansawdd da, tra bod amcangyfrifon ar lefel Cymru yn cael eu hystyried yn rhai o ansawdd resymol yn y sectorau canlynol:

- gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET);
 - a ddisgrifir isod fel gweithwyr proffesiynol STEM;
- gweithwyr cyswllt proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET);
 - a ddisgrifir isod fel gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM.³⁴


Dengys Ffigur 39:

- Ar lefel y DU:
 - fod yr amcangyfrif o'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithwyr proffesiynol STEM wedi bod rhwng 8 a 12 y cant yn y mwyafrif o flynyddoedd rhwng 2011 a 2018 (yr eithriad oedd bwloch cyflog rhwng y rhywiau o 5 y cant yn 2015).

³⁴ Mae asesiad ansawdd ONS o bob amcangyfrif yn seiliedig ar werthoedd cyfernod amrywiad ar gyfer yr amcangyfrifon cyfatebol o enillion gwrywod a benywod. Y cyfernod amrywiad yw cymhareb gwall safonol amcangyfrif i'r amcangyfrif ei hun ac fe'i mynegir fel canran. Y lleiaf y cyfernod amrywiad, y mwyaf yw cywirdeb yr amcangyfrif. Mae'r codau lliw ar gyfer amcangyfrifon y bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu pennu fel a ganlyn: Os yw gwerthoedd cyfernod amrywiad yr amcangyfrifon enillion gwrywod a benywod yn llai na neu'n hafal i 5 y cant, ystyrir bod amcangyfrif y bwloch cyflog rhwng y rhywiau o ansawdd da; Os yw gwerth cyfernod amrywiad enillion gwrywod neu fenywod (neu'r ddau) yn fwy na 5 y cant ac yn llai na neu'n hafal i 10 y cant (ac mae cyfernod amrywiad yr amcangyfrif arall yn llai na neu'n hafal i 10 y cant) yna ystyrir bod amcangyfrif y bwloch cyflog rhwng y rhywiau o ansawdd rhesymol.

- Ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM, mae'r amcangyfrif o'r bwch cyflog rhwng y rhywiau wedi bod rhwng 13 ac 17 y cant.
- Yng Nghymru:
 - mae'r amcangyfrif o'r bwch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol STEM wedi amrywio rhwng un ac ugain y cant rhwng 2011 a 2018.
 - Ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM, amcangyfrifir bod y bwch cyflog rhwng y rhywiau rhwng 21 a 27 y cant ym mhob blwyddyn ar wahân i 2016, pan amcangyfrifwyd ei fod yn 17 y cant.

Ffigur 39. Bwch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithwyr proffesiynol STEM a gweithwyr proffesiynol cyswllt 2011-18*



*Diffinnir 'gweithwyr proffesiynol STEM' a 'gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM' gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol 'Gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET)' a gweithwyr proffesiynol cyswllt fel data procsi. Mae data 2018 yn rhai dros dro.
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion


Cyhoeddir amcangyfrifon enillion yn seiliedig ar ddata ASHE hefyd gan y sector diwydiannol. Mae amcangyfrifon ar gyfer Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnolegol ar gael i Gymru rhwng 2011 a 2018. Defnyddir y sector hwn fel data procsi ar gyfer gweithgareddau STEM isod.

Dengys y data yn Ffigur 40:

- Fod yr amcangyfrif o'r bwch cyflog rhwng y rhywiau mewn gweithgareddau STEM wedi gostwng o 33 i 23 y cant yng Nghymru rhwng 2011 a 2018.

- Mae'r bwch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru (23.3 y cant) a'r DU (23.7 y cant) bellach yn debyg ar gyfer gweithgareddau STEM.
- Mae'r amcangyfrif o'r blwch cyflog rhwng y rhywiau yn uwch mewn gweithgareddau STEM (23 y cant) na'r cyfartaledd ar draws yr holl ddiwydiannau (14 y cant).
 - Mae hyn yn wir am Gymru a'r DU, er bod y bwch rhwng gweithgareddau STEM a'r holl ddiwydiannau wedi culhau o 2011-18.
 - Mae'r bwch cyflog rhwng y rhywiau ar draws yr holl ddiwydiannau yn is yng Nghymru (14 y cant) nag yn y DU (18 y cant).

Ffigur 40. Bwlch cyflog rhwng y rhywiau rhwng gwrywod a benywod sy'n gweithio mewn gweithgareddau STEM a phob diwydiant yng Nghymru a'r DU (2011-18)*



*Data ar gyfer 'Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol' a ddefnyddir fel procsi ar gyfer gweithgareddau STEM. Mae data 2018 yn rhai dros dro.
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

5.2.2 Cymharu'r bwch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru â gwledydd eraill y DU

Gellir cymharu'r bwch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithwyr proffesiynol STEM (unwaith eto, gan ddefnyddio galwedigaethau SRET fel procsi) yng Nghymru â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU.³⁵ Dengys


Ffigur 41 fod y canlynol yn wir yn 2018:

- Roedd y bwch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol STEM yng Nghymru yn 12.7 y cant, sy'n golygu bod benywod yn cael eu talu 12.7 y cant yn llai ar gyfartaledd na gwrywod.
 - Roedd hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 11.4 y cant.
 - Roedd y bwch cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio ledled y DU, o 17.7 y cant yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i 7.8 y cant yn Swydd Efrog a'r Humber.

³⁵ Mae'r ONS yn ystyried bod y data ar y lefel hon o 'ansawdd rhesymol'.

- Roedd y bwch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM yng Nghymru yn 21.0 y cant, sy'n golygu bod benywod yn cael eu talu 21.0 y cant yn llai ar gyfartaledd na gwrywod.
 - Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 13.3 y cant.
 - Roedd y bwch cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio ar draws gwledydd a rhanbarthau eraill y DU, o 5 y cant yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i 19 y cant yn Ne-orllewin Lloegr.

Ffigur 41. Bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol STEM yng Nghymru, yr Alban a rhanbarthau Lloegr 2018



*Diffinnir 'gweithwyr proffesiynol STEM' a 'gweithwyr proffesiynol cyswllt STEM' gan ddefnyddio gweithwyr proffesiynol 'Gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SRET)' a gweithwyr proffesiynol cyswllt fel data procsi.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae data 2018 yn rhai dros dro.

5.2.3 Adroddiadau gan gwmnïau mawr ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau

Yn 2017, cyflwynodd llywodraeth y DU reoliadau sy'n ei gwneud yn ofodol i gyflogwyr sydd â 250 neu fwy o weithwyr adrodd a chyhoeddi eu gwybodaeth am y bwch cyflog rhwng y rhywiau. Rhaid i gyflogwyr gyflwyno eu data ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau i wasanaeth

adrodd ar-lein llywodraeth y DU a chyhoeddi eu data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar eu gwefan gyhoeddus, ynghyd â datganiad ysgrifenedig.³⁶

Mae'r dadansoddiad isod yn cymharu data bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyfartalog ar gyfer cwmnïau mewn sectorau STEM (gan ddefnyddio gweithgareddau Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol fel procsi ar gyfer STEM) â'r cyfartaledd ar gyfer pob cwmni sy'n cyflwyno data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Roedd cwmnïau yn y sectorau STEM yn cyfrif am oddeutu 1.8 y cant o'r holl gwmnïau yn y naill flwyddyn a'r llall.

Mae'r data'n dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn sectorau STEM yn y DU yn debyg i'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant:

- Yn 2018/19:
 - Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn sectorau STEM yn 12.0 y cant (cyflog canolrifol yr awr), o'i gymharu ag 11.9 y cant ar draws yr holl ddiwydiannau.
 - Yn seiliedig ar 194 o gyflogwyr mewn sectorau STEM o blith 10,816 o gyflogwyr.
- Yn 2017/18:
 - Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y sectorau STEM yn 11.9 y cant, o'i gymharu ag 11.8 y cant ar draws yr holl ddiwydiannau
 - Yn seiliedig ar 181 o gyflogwyr mewn sectorau STEM o blith 10,561 o gyflogwyr sydd â chodau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) priodol.

5.3 Perchnogaeth busnes a rheoli busnes

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi Arolwg blynyddol o Fusnesau Bach sy'n cynnwys sawl cwestiwn sy'n ymwneud â benywod sy'n berchen ar fusnesau neu'n rheoli busnesau. Mae'r ONS yn cyhoeddi data ar y canlynol ar gyfer gwledydd y DU:


- Canran y busnesau y mae menywod yn berchen ar fwy na 50 y cant ohonynt;
- Canran y busnesau sy'n cael eu harwain gan fenywod;
- Canran y perchnogion/cyfarwyddwyr sy'n fenywod;
- Nifer cyfartalog y cyfarwyddwyr a'r partneriaid sy'n fenywod.

Mae'r ONS hefyd yn cyhoeddi hyn yn ôl sector ar lefel y DU, ond nid yw'n cyhoeddi'r dadansoddiad hwn o sectorau yn ôl gwlad y DU fel mater o drefn. Mae'r data isod wedi'u darparu'n benodol ar gyfer busnesau ymatebol o'r sector 'proffesiynol a gwyddonol' yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r data'n seiliedig ar feintiau sampl bach ac felly dylid eu dehongli'n ofalus. Am y rheswm hwn, adroddir am y gwall safonol ac ar y ffiniau isaf ac uchaf ar gyfer pob pwynt data. Dylid trin data tueddiadau yn ofalus iawn, ac felly ni chânt eu dadansoddi yn y testun sy'n cyd-fynd â'r tablau isod. Dengys Ffigur 42, rhwng 2015 a 2018,

³⁶ Cyhoeddir data ar gyfer cwmnïau unigol ar dudalen we Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae data ar gael am ddwy flwyddyn ariannol gyflawn ac un flwyddyn rannol. Ar gyfartaledd ar draws y ddau adroddiad blynyddol cyflawn, cyflwynodd 10,689 o gyflogwyr adroddiad ar eu data Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Gweler <https://gender-pay-gap.service.gov.uk/viewing/download>

bod gan gwmnïau a ymatebodd o Gymru yn y sector 'proffesiynol a gwyddonol' rhwng 0.75 a 1.07 o gyfarwyddwyr sy'n fenywod ar gyfartaledd.³⁷ Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 0.85 yn 2018 yn y sector hwn.

Ffigur 42. Nifer cymedrig y cyfarwyddwyr benywaidd a adroddwyd gan fusnesau bach yn y sector STEM yng Nghymru*



*Yn seiliedig ar 15-34 o ymatebwyr yn y sector proffesiynol a gwyddonol yng Nghymru bob blwyddyn.


Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach (2018)

O ran perchnogaeth fwyafrifol, dengys Ffigur 43 mae menywod oedd â pherchnogaeth fwyafrifol ar rhwng pump a phymtheg y cant o'r busnesau a ymatebodd o'r sector proffesiynol a gwyddonol yng Nghymru rhwng 2015 a 2018.³⁸ Mae hyn yn cymharu ag 19 y cant ledled y DU gyfan yn 2018.

³⁷ Mae'n bwysig nodi bod y gwall safonol ar y data hyn yn golygu y gallai'r cymedr fod mor isel â 0.53 ac mor uchel ag 1.18.

³⁸ Mae'r gwall safonol ar y data hwn yn golygu y gallai'r ffigur fod mor isel ag un y cant ac mor uchel â 41 y cant.


Ffigur 43. Canran y busnesau bach yn y sector STEM yng Nghymru a nododd mai menywod sydd â'r berchnogaeth fwyafrifol*



*Yn seiliedig ar 27-58 o ymatebwyr yn y sector proffesiynol a gwyddonol yng Nghymru bob blwyddyn.
Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach (2018)

Dengys Ffigur 44 fod rhwng un a chwech y cant o'r cwmnïau ymatebol o Gymru yn y sector STEM yn cael eu harwain gan fenywod. Mae hyn yn cymharu ag 16 y cant o gwmnïau ledled y DU ar gyfartaledd yn 2018.

Ffigur 44. Canran y busnesau bach yn y sector STEM yng Nghymru a nododd bod eu busnes yn cael ei arwain gan fenywod



*Yn seiliedig ar 27-58 o ymatebwyr yn y sector proffesiynol a gwyddonol yng Nghymru bob blwyddyn.
Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach (2018)

5.4 Entrepreneuriaeth

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) yn cynnal Arolwg rhyngwladol o'r Boblogaeth Oedolion sy'n archwilio ystod o gwestiynau sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth. Un o ddangosyddion allweddol yr arolwg yw canran y boblogaeth fenywaidd 18-64 sydd naill ai'n entrepreneur cychwynnol neu'n berchen-reolwr busnes newydd. Mae adroddiadau GEM hefyd yn rhannu'r ganran hon o fenywod â'r hyn sy'n cyfateb i'w cymheiriaid gwrywaidd; gelwir hyn yn gymhareb Cyfanswm Gweithgaredd Entrepreneuriaidd Cam Cynnar Benywaidd/Gwrywaidd (TEA).³⁹ Mae'r data hyn ar gael ar gyfer pob gwlad yn y DU, ond nid ydynt yn cael eu dadansoddi yn ôl sector diwydiannol.


Mae Adroddiad Monitro diweddaraf GEM UK 2018 yn darparu data ar y dangosyddion uchod ar gyfer pob gwlad yn y DU.⁴⁰ Dengys y data yn Ffigur 45 y canlynol:

- yng Nghymru, roedd 4.4 y cant o'r boblogaeth fenywaidd 18-64 oed naill ai'n entrepreneur cychwynnol neu'n berchen-reolwr ar fusnes newydd, o'i gymharu â 9.4 y cant o wrywod (gan roi cymhareb TEA o 47 y cant);
- yn Lloegr, y canrannau cyfatebol oedd 5.4 y cant o fenywod a 10.8 y cant o wrywod, yn y drefn honno (cymhareb TEA o 50 y cant);
- yn yr Alban, y canrannau cyfatebol oedd 4.3 y cant o fenywod ac 8.4 y cant o wrywod, yn y drefn honno (cymhareb TEA o 50 y cant);
- yng Ngogledd Iwerddon, y canrannau cyfatebol oedd 3.2 y cant o fenywod a 9.9 y cant o wrywod, yn y drefn honno (cymhareb TEA o 32 y cant);

³⁹ Mae cymhareb TEA Benywaidd/Gwrywaidd o 100 y cant yn nodi canran gyfartal o wrywod a benywod, gyda chymhareb o dan 100 yn nodi lefel is o entrepreneuriaeth ymhlith benywod.

⁴⁰ Adroddiad ar gael yn: <https://www.enterpriseresearch.ac.uk/gem-2018-report-launched/> [Fel ar 10 Rhagfyr 2019]

Ffigur 45. Canran y boblogaeth Wrywaidd (G) a Benywaidd (B) sy'n ymwneud â Chyfanswm Gweithgaredd Entrepreneuriaidd cam cynnar (TEA) yng Ngwledydd y DU, 2018



Ffynhonnell: GEM UK APS 2018.

Yng Nghymru, mae canran y boblogaeth fenywaidd 18-64 oed a oedd naill ai'n entrepreneur cychwynnol neu'n berchen-reolwr ar fusnes newydd wedi cynyddu o ychydig dros 4 y cant yn 2002 i bron 7 y cant yn 2018, gan amrywio rhwng pedwar ac wyth y cant dros y cyfnod hwn.⁴¹

⁴¹ Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer y DU (ond nid gwledydd y DU) ar gael yn Adroddiad Entrepreneuriaeth Merched GEM 2016/2017. Mae hyn yn archwilio'r dadansoddiad sector canlynol ar lefel y DU yn 2016/17 yn unig: Amaethyddiaeth a Mwyngloddio; Gweithgynhyrchu a chludo; Cyfanwerthu / Manwerthu; TGCh; Llywodraeth / Iechyd / Addysg / Gwasanaethau Cymdeithasol; Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol / Gweinyddol / Defnyddwyr.

Canfyddiadau allweddol: Cyflogaeth a'r farchnad lafur



Cyflogaeth



- Bu cynnydd yn nifer y benywod a gyflogir mewn **galwedigaethau STEM** yng Nghymru.
 - Fodd bynnag, mae **benywod yn parhau i fod wedi'u tangynrychioli** mewn galwedigaethau STEM. Mae amrywiadau mawr yn ôl is-gategori galwedigaethol.
 - 2018/19: **11,300 o fenywod a 49,200 o wrywod** mewn rolau proffesiynol STEM.
 - mae twf yn nifer y benywod mewn **rolau TG uwch** wedi bod yn arafach nag ymhlith gwrywod.



Enillion

- Mae'r **Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau mewn STEM yn cau yng Nghymru a'r DU**.
 - Fodd bynnag, mae'r bwlch yn **yn fwy mewn galwedigaethau STEM** nag mewn proffesiynau eraill.



Menter a busnes

- Ymhlith cwmnïau mwy, mae'r Bwlch Cyflog yn **debyg mewn sectorau STEM a sectorau nad ydynt yn ymwneud â STEM**.
- Ymddengys fod **busnesau bach y mae benywod yn berchen arnynt ac arweinyddiaeth** ymhlith benywod yn cynyddu yn y sector STEM, er bod hynny o sylfaen isel.
- Mae **entrepreneuriaeth** ymysg benywod yng Nghymru wedi cynyddu rhwng 2002 a 2018, er nad oes data ar sectorau STEM ar gael.



Atodiad 1

Cyflwynir isod dablau ychwanegol o'r setiau data y mae'r ffigurau a'r tablau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig arnynt.

Cymharu'r data Cyfnod Sylfaen â gwledydd eraill

Yn Lloegr, gellir gweld bwloch o oddeutu dau bwynt canran rhwng merched a bechgyn mewn asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 1. Dengys Tabl 23 fod ychydig dros dri chwarter y merched (77 y cant) yn gweithio ar y safon ddisgwyliedig neu'n uwch yn 2019, o'i gymharu ag ychydig yn llai na thri chwarter (74 y cant) o fechgyn.⁴² Gwelwyd bylchau tebyg mewn perfformiad yn 2016, 2017 a 2018. Er bod canrannau'r merched a'r bechgyn sy'n gweithio ar y safon ddisgwyliedig neu'n uwch yn is yn Lloegr na'r canrannau sy'n cyflawni'r deiliant disgwyliedig yng Nghymru, mae gwahaniaethau yn y systemau addysg yn golygu nad oes modd cymharu'r data yn uniongyrchol.

Tabl 23. Asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 1 yn Lloegr 2016-19

Canran sy'n gweithio ar y safon ddisgwyliedig neu'n uwch	2016	2017	2018	2019*
Merched	74%	76%	77%	77%
Bechgyn	72%	74%	75%	74%

*Data dros dro

Yn wahanol i Gymru, mae disgyblion hefyd yn cael eu hasesu mewn Gwyddoniaeth yn Lloegr yng Nghyfnod Allweddol 1. Yn 2019, roedd 85 y cant o ferched yn 'cyrraedd y safon ddisgwyliedig' mewn Gwyddoniaeth o'i gymharu ag 80 y cant o fechgyn. Mae asesiadau o blant iau 5 oed hefyd yn cael eu cynnal yn Lloegr, gyda data'n cael eu casglu drwy'r 'proffil cyfnod sylfaen blynyddoedd cynnar' ar ganran y plant 5 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn 17 o nodau dysgu cynnar, sy'n cynnwys 'rhifau', 'siâp, gofod a mesurau' a 'thechnoleg'. Mae data ar gyfer 2018 yn dangos bod merched 5 oed yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyrraedd pob un o'r nodau hyn.⁴³

Nid oes modd cymharu data ar gyfer yr Alban yn uniongyrchol â Chymru, gan fod asesiadau'n cael eu cynnal ar wahanol oedrannau, ac maent yn seiliedig ar Rifedd yn hytrach na Mathemateg. Gwneir asesiadau rhifedd yn Primary 4 (P4) yn yr Alban (sy'n cyfateb i Flwyddyn 4 yng Nghymru).⁴⁴ Ar y cam hwn, mae canran ychydig yn uwch o ferched (77 y cant) o gymharu â bechgyn (76 y cant) yn cyflawni'r lefelau Cwricwlwm Rhagoriaeth (CfE) disgwyliedig mewn Rhifedd yn yr Alban.⁴⁵

⁴² Gwel *Phonics screening check and key stage 1 assessments: Lloegr 2019*, Yr Adran Addysg. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/phonics-screening-check-and-key-stage-1-assessments-england-2019> [Cyrchwyd ar 3ydd Rhagfyr 2019]

⁴³ Gweler *Early years foundation stage profile results in England, 2018*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/748814/EYFSP_2018_Main_Text.pdf [Fel ar 3 Rhagfyr 2019]

⁴⁴ Gwneir asesiadau Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 2.

⁴⁵ Gweler *Achievement of Curriculum for Excellence levels: 2018-19*. Ar gael yn: <https://www.gov.scot/publications/achievement-curriculum-excegnosis-cfe-levels-2018-19/>

Tabl 24. Canlyniadau asesiad rhifedd Primary 4 yn yr Alban 2015/16 i 2018/19

Canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig CfE mewn Rhifedd	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Merched	74	76	77	77
Bechgyn	72	74	75	76
Bwlch	2	2	2	1

Mae asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 1 hefyd yn cael eu cynnal yng Ngogledd Iwerddon, er bod y data yn llai cynhwysfawr a dibynadwy nag yng Nghymru, Lloegr a'r Alban oherwydd cyfraddau cwblhau isel gan ysgolion mewn rhai blynyddoedd yn ogystal â'r data sampl heb ei bwysoli. Mae'r data a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ar gyfer Gogledd Iwerddon (2018/19) yn dangos bod canran uwch o fechgyn (17.0 y cant) na merched (14.5 y cant) yn cyflawni Lefel 3 mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 1, gyda chanran uwch o ferched (74.3 y cant) na bechgyn (70.5 y cant) yn cyflawni Lefel 2. Gwelir patrymau tebyg mewn data ar gyfer blynyddoedd cynharach yng Ngogledd Iwerddon, gyda chanran uwch o fechgyn yn cyflawni Lefel 3, a chanran uwch o ferched yn cyflawni Lefel 2.⁴⁶

Cymharu data Cyfnod Allweddol 2 â gwledydd eraill

Yn Lloegr, cynyddodd canran y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 rhwng 2016 a 2019, gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob blwyddyn o 2017 ymlaen. Dengys Tabl 25 fod 79 y cant o ferched yn Lloegr wedi cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2019, o'i gymharu â 78 y cant o fechgyn.⁴⁷

Tabl 25. Canran y bechgyn a'r merched yn Lloegr a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2

	2016	2017	2018	2019
Bechgyn	70%	74%	75%	78%
Merched	70%	75%	76%	79%

Ffynhonnell: Asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2

O'i gymharu â Mathemateg, mae bwlch mwy i'w weld rhwng y bechgyn a'r merched mewn asesiadau Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2 yn Lloegr. Ehangodd y bwlch yng nghanran y merched a'r bechgyn sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig rhwng 2016 a 2019.

Tabl 26. Canran y bechgyn a'r merched yn Lloegr a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2

	2016	2017	2018	2019
Bechgyn	79%	79%	80%	80%
Merched	83%	84%	85%	86%

Ffynhonnell: Asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2

⁴⁶ Gweler *Key STage 1 and 2 Assessment Statistics*. Ar gael yn:

http://ccea.org.uk/more/research_statistics/curriculum/key_stages_1_2/assessment

⁴⁷ Gweler *National curriculum assessments at key stage 2*. Ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/collections/statistics-key-stage-2#pupil-attainment-at-key-stage-2>

Nid oes modd cymharu data ar gyfer yr Alban yn uniongyrchol â Chymru, gan fod asesiadau'n cael eu cynnal ar wahanol oeddrannau, ac maent yn seiliedig ar Rifedd yn hytrach na Mathemateg.⁴⁸ Gwneir asesiadau rhifedd yn Primary 7 (P4) yn yr Alban (sy'n cyfateb i Flwyddyn 4 yng Nghymru). Serch hynny, gellir gweld bwlch rhwng y rhywiau tebyg i Gymru mewn cyrhaeddiad yn yr Alban, gyda 61 y cant o ferched a 56 y cant o fechgyn yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Rhifedd yn 2018/19.⁴⁹

Tabl 27. Canran y bechgyn a'r merched yn yr Alban a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Rhifedd yn Primary 7

	2016	2017	2018	2019
Bechgyn	67%	69%	73%	75%
Merched	69%	71%	76%	78%

Ffynhonnell: Cyflawni Lefelau'r Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth, Llywodraeth yr Alban.

Mae asesiadau Mathemateg Cyfnod Allweddol 2 hefyd yn cael eu cynnal yng Ngogledd Iwerddon, er bod y data yn llai cynhwysfawr a dibynadwy nag yng Nghymru, Lloegr a'r Alban oherwydd cyfraddau cwblhau isel gan ysgolion mewn rhai blynyddoedd ac nid yw'r data sampl wedi'i bwysoli. Mae'r data a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ar gyfer Gogledd Iwerddon (2018/19) yn dangos bod canran uwch o ferched na bechgyn yn cyflawni lefelau uwch (Lefelau 4 neu 5) mewn Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2, a bod hyn wedi bod yn wir ym mhob blwyddyn er 2015/16.⁵⁰ Mae asesiadau cyfnod allweddol mewn 'Defnyddio TGCh' hefyd yn cael eu cynnal yng Ngogledd Iwerddon, ond nid yng Nghymru.

Cofrestriadau TGAU

Dengys Tabl 28 nifer y cofrestriadau TGAU gan fechgyn a merched mewn pynciau academiaidd STEM ym mhob blwyddyn rhwng 2012/13 a 2018/19. Mae'n dangos bod mwy o fechgyn na merched wedi cofrestru ar gyfer arholiadau Gwyddoniaeth Gymhwysol, Gwyddorau Eraill, Dylunio a Thechnoleg, a TGCh ym mhob blwyddyn y mae data ar gael ar eu cyfer.

⁴⁸ Gwneir asesiadau Cyfnod Allweddol 2 ym Mlwyddyn 6 yng Nghymru.

⁴⁹ Gweler *Achievement of Curriculum for Excellence levels: 2018-19*. Ar gael yn:

<https://www.gov.scot/publications/achievement-curriculum-excegnosis-cfe-levels-2018-19/>

⁵⁰ Gweler *Key STage 1 and 2 Assessment Statistics*. Ar gael yn:

http://ccea.org.uk/more/research_statistics/curriculum/key_stages_1_2/assessment

Tabl 28. Nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU mewn pynciau academaidd STEM 2012/13 - 2018/19

Pwnc	2012/13		2013/14		2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19	
	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
Pob Pwnc	132830	138951	126038	132831	121920	129710	118970	125722	134660	139145	134763	137773	139348	142771
Gwyddorau Biolegol	2953	2706	3051	2902	2914	2708	3035	2863	3091	3054	3314	3457	3460	3600
Cemeg	2906	2599	3056	2879	2896	2607	3016	2855	3067	3033	3254	3430	3433	3578
Ffiseg	2919	2544	3027	2807	2892	2605	2980	2753	3045	2941	3290	3381	3361	3435
Gwyddoniaeth Sengl	10645	10625	9076	9293	8513	9014	8415	8702	10325	10178
Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	19955	19097	20094	19650
Gwyddoniaeth Gymhwysol	288	177	413	300
Gwyddoniaeth Ychwanegol	7079	7326	5898	6206	5698	6229	5708	6177	7595	7705
Gwyddorau Eraill	496	141	540	120	537	132	565	101	393	61	256	48	25	7
Dylunio a Thechnoleg*	5774	2979	5784	2789	5315	2714	5007	2536	4653	2285	4011	1642	3377	1469
TGCh	2657	1814	3063	1982	3908	2038	4345	2198	5035	2179	4919	2084	5293	2165
Economeg y Cartref	277	3323	218	2728	257	2531	238	2570	184	2140	659	2893	709	2882
Mathemateg	19240	18641	18374	17777	17677	17194	16974	16327	15968	15291	15254	14538	15562	14930
Mathemateg - Rhifedd	15528	14931	15036	14359	15292	14748

*Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg

Testun gwyrdd - yn dynodi bod mwy na 55% o'r cofrestriadau yn rhai gan ferched. **Testun oren** - yn dynodi bod mwy na 55% o'r ceisiadau gan fechgyn.

Ni ddangoswyd data ar gyfer blynyddoedd cyn 2012/13 am resymau'n ymwneud â'r cyflwyniad.

Dengys Tabl 29 y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau TGAU yn ôl pwnc unigol rhwng 2008/09 a 2018/19.

- Mae'r data'n dangos y bu cynnydd rhwng 2008/09 a 2018/19 yn nifer y disgyblion sy'n astudio
 - Gwyddorau Biolegol (cynnydd o 62 y cant),
 - Cemeg (cynnydd o 69 y cant) a
 - Ffiseg (66 y cant).
- Gall hyn fod yn adlewyrchiad o lai o ysgolion yn cynnig cyrsiau Cyfnod Allweddol 4 eraill fel BTEC mewn Gwyddoniaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a newidiadau eraill yn y pynciau a gynigir.
 - Er enghraifft, o 2017/18 ymlaen, mae'r data'n dangos bod disgyblion yn symud i ffwrdd oddi wrth gofrestru ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Sengl a Gwyddoniaeth Ychwanegol (35,803 ymgais yn 2016/17, dim yn 2017/18), gyda llawer o'r disgyblion hyn yn cofrestru ar gyfer Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth Gymhwysol yn lle hynny (dim cofrestriadau yn 2016/17, 39,517 yn 2017/18).

Fel y nodir uchod, dylid bod yn ofalus wrth ystyried data sy'n dangos newidiadau dros amser yn nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU, o ystyried newidiadau mewn dulliau casglu data a phatrymau eraill yn y mathau o gyrsiau a gynigir gan ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir gyda data ar lefel pynciau unigol. Fodd bynnag, gellir gweld o Tabl 29 isod:

- bod y cynnydd canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddorau Biolegol, Cemeg a Ffiseg yn uwch ymhlith merched na bechgyn;
- bod nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU TGCh wedi haneru ymhlith merched rhwng 2008/09 a 2018/19, gan aros yn ddigyfnewid yn fras ar gyfer bechgyn;
- bod y cynnydd canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Economeg y Cartref yn uwch ymhlith bechgyn na merched

Tabl 29. Newid canrannol yn nifer y cofrestrïadau TGAU yn ôl pwnc 2008/09 - 2018/19

Pwnc neu grŵp		Newid canrannol 2008/09 - 2018/19		
		Bechgyn	Merched	Disgyblion
Pob pwnc		-5.5%	-8.5%	-7.0%
STEM Academaidd	Gwyddorau Biolegol	56.1%	67.2%	61.6%
	Cemeg	62.4%	76.4%	69.3%
	Ffiseg	57.6%	74.0%	65.5%
	Gwyddorau Eraill	-95.9%	-95.2%	-95.8%
	Dylunio a Thechnoleg*	-56.4%	-65.1%	-59.5%
	TGCh	-0.5%	-51.1%	-23.5%
	Economeg y Cartref	90.1%	-23.9%	-13.6%
	Mathemateg	-19.2%	-22.2%	-20.7%
Gwyddorau Cymdeithasol	Astudiaethau Busnes	-17.3%	-30.6%	-23.1%
	Daearyddiaeth	-37.5%	-34.2%	-36.1%
	Dyniaethau	-81.8%	-77.9%	-79.7%
	Astudiaethau Cymdeithasol	-96.1%	-95.9%	-96.0%
	Busnes Cymhwysol (CG)	-97.4%	-97.4%	-97.4%
Pynciau Academaidd Eraill	Hanes	-30.5%	-15.9%	-23.1%
	Astudiaethau Galwedigaethol	-99.9%	*	-99.9%
	Celf a Dylunio	-32.0%	-5.7%	-15.7%
	Astudiaethau Clasurol	-90.6%	-95.7%	-92.9%
	Astudiaethau Cyfathrebu	-55.9%	-60.1%	-58.1%
	Drama	-45.7%	-49.3%	-48.1%
	Saesneg Iaith	-10.9%	-14.7%	-12.8%
	Llenyddiaeth Saesneg	-11.3%	-15.2%	-13.3%
	Ffrangeg	-64.2%	-56.9%	-59.7%
	Almaeneg	-71.3%	-72.1%	-71.8%
	Sbaeneg	-20.5%	-19.8%	-20.1%
	Ieithoedd Tramor Modern Eraill	-12.1%	-13.1%	-12.6%
	Cerddoriaeth	-45.2%	-30.3%	-37.1%
	Addysg Gorfforol	-26.0%	-22.0%	-24.5%
	Astudiaethau Crefyddol	36.7%	20.3%	26.8%
	Cymraeg	7.5%	-0.8%	3.0%
	Llenyddiaeth Gymraeg	-7.1%	-10.5%	-9.0%
	Cymraeg Ail Iaith	125.6%	88.2%	105.0%
STEM Galwedigaethol	Gwyddoniaeth Gymhwysol (CG) (8)	-0.9%	-29.4%	-16.1%
Pynciau Galwedigaethol Eraill	Iechyd a Gofal Cymdeithasol (CG) (8)	-42.6%	-33.5%	-33.9%
	Lletygarwch ac Arlwyyo (CG) (8)	-73.0%	-64.6%	-67.8%
	Hamdden a Thwristiaeth (CG) (8)	-96.2%	-96.9%	-96.6%
	Y Celfyddydau Perfformio (CG) (8)	-96.8%	-85.6%	-88.3%

*Cyfeirir at Ddylunio a Thechnoleg yn ystadegau Llywodraeth Cymru fel Crefft, Dylunio a Thechnoleg Mae'r testun **Gwyrdd** ac **Oren** yn dynodi pynciau lle roedd y cynnydd/gostyngiad canrannol dros 10 pwynt canran yn uwch/is ymhlith **merched** neu **fechgyn**. Nid yw rhai pynciau wedi'u cynnwys uchod gan nad oedd dim cofrestrïadau ar gyfer arholiadau yn 2008/09 na 2018/19. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwyddoniaeth Sengl, Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol, Gwyddoniaeth Ychwanegol, Mathemateg - Rhifedd, Economeg, Saesneg Ail Iaith, Peirianeg Gymhwysol (CG), TGCh Gymhwysol (CG), Gwyddoniaeth

Gymhwysol (CG), Gwyddoniaeth Gymhwysol Ychwanegol (CG), Adeiladu (CG), Gweithgynhyrchu (CG), Celf a Dylunio Cymhwysol (CG), AG Cymhwysol (CG), Cyfryngau: Cyfathrebu a Chynhyrchu (CG).

Data AGA

Dengys Tabl 30 isod nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru) a gofrestrodd ar gyrsiau AGA mewn SAU yng Nghymru ac mewn SAU ledled y DU yn 2017/18.

Tabl 30. Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau AGA yng Nghymru a'r DU yn ôl pwnc a rhywedd 2017/18

Pwnc	Nifer y Myfyrwyr Blwyddyn Gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU yn ôl pwnc a rhywedd			Nifer y Myfyrwyr Blwyddyn Gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA mewn SAU yng Nghymru yn ôl pwnc a rhywedd		
	Benywod	Gwrywod	Cyfanswm	Benywod	Gwrywod	Cyfanswm
Busnes	5	5	10	5	5	10
Ffiseg	5	20	25	5	10	15
Cemeg	15	10	30	10	10	20
TG	10	20	30	10	10	20
Addysg Grefyddol	25	5	30	*	20	20
Bioleg	25	20	40	15	15	30
Dylunio a Technoleg	30	10	40	10	25	40
Daearyddiaeth	25	15	45	10	10	20
Hanes	25	30	55	25	10	40
Addysg Gorfforol	25	35	60	30	15	45
Mathemateg	45	40	85	20	30	50
Gwyddoniaeth Gyffredinol	*	5	5	*	5	*
Astudiaethau Cymdeithasol	*	*	5	*	*	*
Pob un	260	390	650	175	260	435

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Athrawon ac ymarferwyr cofrestredig

Dengys Tabl 31 isod nifer yr athrawon uwchradd gwrywaidd a benywaidd cofrestredig yn ôl y pwnc y cawsant eu hyfforddi ynddo. Mae'n dangos, ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mai'r pynciau lle yr oedd benywod yn cyfrif am dros 55 y cant o'r athrawon a hyfforddwyd oedd Bioleg, Gwyddoniaeth Gyfun/Gyffredinol, Daeareg, Mathemateg a Chemeg. Y pynciau lle yr oedd gwrywod yn cyfrif am dros 55 y cant o'r athrawon a hyfforddwyd oedd Cyfrifiadureg a Thechnoleg Gwybodaeth, Astudiaethau Dylunio, Gwyddor Ffisegol a Ffiseg.

Tabl 31. Nifer yr athrawon ysgol a oedd wedi'u cofrestru â CGA yn ôl pwnc AGA a rhywedd (athrawon ysgol hyfforddedig uwchradd yn unig)

Pwnc yr Hyfforddwyd Ynnddo* / Benywod (B) Gwrywod (G)	2017			2018			2019					
	B	G	Cyfanswm	B	G	Cyfanswm	Benywod		Gwrywod		Cyfanswm	
	%	%	%	%	%	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bioleg	63%	37%	100%	65%	35%	100%	411	65%	219	35%	630	100%
Peirianeg Biocemegol	50%	50%	100%	50%	50%	100%	1	50%	1	50%	2	100%
Cemeg	57%	43%	100%	57%	43%	100%	285	59%	198	41%	483	100%
Gwyddoniaeth Gyfun / Gyffredinol	61%	39%	100%	61%	40%	100%	467	61%	304	39%	771	100%
Cyfrifiadureg a Thechnoleg Gwybodaeth	39%	61%	100%	38%	62%	100%	164	38%	273	63%	437	100%
Dylunio a Thechnoleg	51%	49%	100%	51%	49%	100%	426	52%	392	48%	818	100%
Astudiaethau Dylunio	35%	65%	100%	38%	62%	100%	83	38%	134	62%	217	100%
Daearreg	60%	40%	100%	56%	44%	100%	4	57%	3	43%	7	100%
Gwyddor Deunyddiau	50%	50%	100%	50%	50%	100%	1	50%	1	50%	2	100%
Mathemateg	57%	44%	100%	58%	42%	100%	956	59%	677	42%	1,633	100%
Gwyddor Ffisegol	29%	71%	100%	33%	67%	100%	4	29%	10	71%	14	100%
Ffiseg	26%	74%	100%	25%	76%	100%	84	27%	223	73%	307	100%
Cyfanswm: Pynciau STEM	53%	47%	100%	54%	46%	100%	2,886	54%	2,435	46%	5,321	100%
Cyfanswm: Pynciau Eraill	75%	26%	100%	74%	26%	100%	6,796	73%	2,542	46%	9,338	100%
Cyfanswm Cyfunol	66%	34%	100%	66%	34%	100%	9,682	66%	4,977	34%	14,659	100%

*Mae data ar y pynciau yr hyfforddwyd ynnddynt yn seiliedig ar y pwnc cyntaf a gofnodwyd ar y Gofrestr yn unig. Mae nifer fach o bethau anhysbys bob blwyddyn sy'n dod i'r cyfansymiau canlynol: 2017 - 96, 2018—145 a 2019—148.

Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Dengys Tabl 32 isod nifer yr athrawon uwchradd gwrywaidd a benywaidd cofrestredig yn ôl y pwnc y cawsant eu hyfforddi ynnddo. Mae'n dangos, ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mai'r pynciau lle yr oedd benywod yn cyfrif am dros 55 y cant o'r athrawon a hyfforddwyd oedd Bioleg, Mathemateg a Chemeg. Y pynciau yr oedd gwrywod yn cyfrif am dros 55 y cant o'r athrawon a hyfforddwyd oedd Technoleg Gwybodaeth, Ffiseg, Peirianeg ac Electroneg.

Tabl 32. Nifer yr athrawon ysgol a oedd wedi'u cofrestru â CGA yn ôl pwnc a addysgir (cyfnod canol neu uwchradd sy'n gweithio yn unig) a rhywedd

Pwnc a Addysgir**	2017			2018			2019					
	Benywod	Gwrywod	Cyfanswm	Benywod	Gwrywod	Cyfanswm	Benywod		Gwrywod		Cyfanswm	
	%	%	%	%	%	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bioleg	66%	34%	100%	65%	35%	100%	290	66%	152	34%	442	100%
Cemeg	61%	39%	100%	60%	40%	100%	254	60%	168	40%	422	100%
Dylunio a Thechnoleg	50%	50%	100%	52%	48%	100%	435	53%	386	47%	821	100%
Electroneg	6%	94%	100%	13%	87%	100%	1	7%	13	93%	14	100%
Peirianeg	21%	79%	100%	20%	80%	100%	7	32%	15	68%	22	100%
Technoleg Gwybodaeth	42%	58%	100%	43%	57%	100%	269	41%	392	59%	661	100%
Mathemateg	58%	43%	100%	58%	42%	100%	928	59%	656	41%	1,584	100%
Ffiseg	36%	64%	100%	38%	62%	100%	137	37%	233	63%	370	100%
Gwyddoniaeth	55%	45%	100%	55%	45%	100%	677	56%	529	44%	1,206	100%
Cyfanswm: Pynciau STEM	53%	47%	100%	54%	46%	100%	2,998	54%	2,544	46%	5,542	100%
Cyfanswm: Pynciau Eraill	76%	24%	100%	76%	24%	100%	6,928	74%	2,417	26%	9,345	100%
Cyfanswm Cyfunol	67%	34%	100%	67%	33%	100%	9,926	67%	4,961	33%	14,887	100%

**Pwnc/pynciau a addysgir - mae athrawon ysgol cofrestredig yn cael eu cynnwys fwy nag unwaith os yw mwy nag un pwnc a addysgir yn cael ei gofnodi ar eu cofnod. Ni chedwir unrhyw ddata ar bynciau a addysgir ar gyfer penaethiaid ac felly ni chynhwysir penaethiaid cofrestredig mewn ysgolion uwchradd a chanolig. Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Dengys Tabl 33 fod un rhan o bump (20 y cant) o ymarferwyr pwnc STEM cofrestredig mewn darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn fenywod, o gymharu â bron i dri chwarter (73 y cant) mewn meysydd pwnc eraill.

Tabl 33. Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith a oedd wedi'u cofrestru â CGA mewn sefydliad dysgu yn y gwaith yn ôl pwnc a gefnogir

Pwnc a Addysgir	Benywod		Gwrywod		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dylunio a Thechnoleg	1	100.00	0	0.0%	1	100.0%
Peirianeg	4	3.9%	98	96.1%	102	100.0%
Daearyddiaeth ac Astudiaethau Amgylcheddol	9	52.9%	8	47.1%	17	100.0%
TGCh	21	61.8%	13	38.2%	34	100.0%
Mathemateg	4	30.8%	9	69.2%	13	100.0%
Gwyddoniaeth	5	17.2%	24	82.8%	29	100.0%
Cyfanswm ar gyfer pynciau STEM	44	22.4%	152	77.6%	196	100.0%
Cyfanswm ar gyfer pynciau eraill	843	73.2%	309	26.8%	1,152	100.0%
Cyfanswm Cyfunol	887	65.8%	461	34.2%	1,348	100.0%

Yn seiliedig ar 999 o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n gweithio ar hyn o bryd (y rhai a gyflogir gan sefydliad dysgu yn y gwaith).

Mae'r data'n cynnwys:

773 o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ag 1 pwnc wedi'i gofnodi, 153 o ymarferwyr dysgu yn y gwaith sydd â 2 bwnc wedi'u cofnodi, 43 sydd â 3 phwnc wedi'u cofnodi, 20 sydd â 4 pwnc wedi'i gofnodi, 6 â 5 pwnc, 2 â 7 pwnc a 2 ag 8 pwnc.

Ffynhonnell: Cofrestr Ymarferwyr Addysgol CGA

Dysgwyr SAU

Tabl 34. Canran y myfyrwyr a gofrestrodd ar gyrsiau STEM AU mewn SAU a oedd yn fenywod*

Gwlad/Blwyddyn	Canran y myfyrwyr a gofrestrodd ar gyrsiau STEM a oedd yn fenywod				
	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Cymru	46.0%	46.0%	48.2%	48.7%	49.9%
Lloegr	50.5%	50.8%	51.1%	51.5%	51.8%
Gogledd Iwerddon	52.0%	51.6%	51.7%	52.2%	52.9%
Yr Alban	51.6%	51.5%	52.2%	52.6%	53.0%

Noder: mae'r data'n seiliedig ar y wlad y mae myfyrwyr yn astudio ynddi, yn hytrach na'r wlad y maent yn hanu ohoni

*Cyrtsiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Tabl 35. Canran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau STEM a chyrsgiau nad ydynt yn ymwneud â STEM mewn SAU ledled y DU yn ôl rhywedd

Pwnc a rhywedd	Canran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau STEM a chyrsgiau nad ydynt yn gyrsiau STEM yn ôl rhywedd		
	2016/17	2017/18	2018/19
Cyrsgiau STEM - gwrywod	48%	47%	46%
Cyrsgiau STEM - benywod	52%	53%	54%
Cyrsgiau heblaw STEM - gwrywod	35%	36%	35%
Cyrsgiau heblaw STEM - benywod	65%	64%	65%

*Cyrsgiau STEM yn seiliedig ar ddiffiniad HESA o 'faes pwnc gwyddoniaeth'.

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Data gweithlu SAU

Tabl 36. Staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgolion Cymru Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn ôl canolfan gost a rhywedd

Pwnc a rhywedd - Gwryw (G) a Benyw (B)	2010/11		2011/12		2012/13		2013/14		2014/15		2015/16		2016/17		2017/18	
	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Canolfannau costau STEM*	2710	1630	2805	1730	3025	1965	3085	2060	3230	2245	2965	2085	3160	2295	3260	2350
Canolfannau cost eraill	2165	2010	2165	2115	2280	2295	2515	2490	2405	2520	2235	2380	2320	2475	2230	2405

*Defnyddir canolfan gost yn gysylltiedig â gwyddoniaeth HESA fel procsi ar gyfer STEM

Ffynhonnell: HESA